



www.clonc.co.uk

Enillydd Gwobr Menter Cymunedol Gwobrau Busnes Ceredigion 2007

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 262 - 50c
Ebrill 2008

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Lluniau Eisteddfod yr Urdd



Tudalen 22

Cadwyn arall o gyfrinachau



Tudalen 11

Colofn enwau lleol




Tudalen 13



Llwyddiant Lleol yn Eisteddfod Rhanbarth Yr Urdd



Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion



Meirion Thomas, Adran Llambled gyda thair tystysgrif cyntaf yn Eisteddfod Cylch ac ail a thrydydd yn yr Eisteddfod Rhanbarth.



Lowri Elen Jones, Adran Llambled yn ennill y cyntaf ar yr Unawd Bl. 5 a 6 a chyntaf hefyd ar y Llefaru Unigol Bl.5 a 6 yn y Rhanbarth.



Mared Owen, Ysgol Carreg Hirfaen yn ennill ar yr Unawd Bl.3 a 4 yn yr Eisteddfod Rhanbarth.



Kaydee Evans, Ysgol Ffynnonbedr 3ydd Llefaru Unigol Bl. 3 a 4 i Ddysgwyr



Kiean Dalton, Ysgol Ffynnonbedr 1af Dawns Disgo Unigol Bl. 6 ac iau



Aled Wyn Thomas, Aelwyd Llambled 2il Unawd Bechgyn Bl. 10 – 13



Elinor Jones, Ysgol Gyfun Llambled 3ydd Dawns Disgo Unigol Bl. 7 - 9



Elin Davies, Ysgol Cwrtnewydd yn ennill cystadleuaeth Graffeg cyfrifiadurol i Fl.2 ac iau Eisteddfod yr Urdd. Enillodd hefyd y drydedd wobwr ar Unawd Cerdd Dant i Bl.2 ac iau ym Mhonrhydfendigaid



Einir Ryder, Aelwyd Llambd 3ydd Unawd 19 – 25 a 3ydd Unawd allan o Sioe Gerdd 19 – 25oed

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygydd:		
Ebrill a Mai	Rhian Jones, Pan-têg, Pentrebach	422546
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Dylunydd:	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
Tim Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan	
Gohebwyr Lleol:		
Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambod	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Iorwerth Evans, Greenwell	493484
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270
Bwrdd Busnes:		
Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Twynog Davies, Frondolau, Llambod	422880

Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Wyn, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llanbed	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambod	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan newydd Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambod.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Prydferthwch mewn mynwentydd.

Wedi Sul y Blodau mae'n mynwentydd yn llawn o harddwch. Llauer yn teithio milltiroedd i gyflawni'r weithred hon yn flynyddol. Trueni fod rhai yn defnyddio'n mynwentydd fel tir agored i ymarfer eu cŵn ac yn gadael y budreddu o dan draed. 'Rwy'n siwr y gwerthfawroga pawb fod pob unigolyn yn gwneud ei ran i gadw'r ardaloedd yma yn gymen.

Gor ymateb.

Ai fi yw'r unig un sy'n teimlo weithiau fod danfon yr heddlu, y frigâd dân ac ambiwlans i safle damwain yn medru bod yn ormodol. Paham na fedrir asesu natur y peth cyn danfon yr holl bersonau yma i drin y ddamwain. Golyga hyn yn aml cau heol am oriau. Gyda'r camerau modern, paham na fedrir cofnodi'r cyfan ar ffilm ac hyd yn oed gwneud dau gopi o'r cyfan fel bod dim cyfle i neb geisio newid y dystiolaeth. Cael y cleifion i ysbyty a chlirio'r llanast ddylasai gael blaenoriaeth.

Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r gwaith o godi arian tuag at yr eisteddfod nesaf wedi dechrau eisioes yn ein hardaloedd. Y disgwyl mawr yw ymhle y lleolir Eisteddfod Ceredigion. Bydd o gymorth mawr i bawb gael gwybod y lleoliad, fe all ddylanwadu ar maint cyfraniad rhai pobl. Nid wy'n credu y bydd hi yn nalgylch Clonc.

Celwydd Gole!

Ar un adeg r'oedd gan bob pentre ei cymeriadau oedd yn adnabyddus am eu storïau celwyddog. Cyn fy amser i roedd gŵr o'r enw Dic yn byw mewn tyddyn yn y plwyf ac yn gweithio mewn pwll glo yn y 'sowth'.

Deil ei hanesion yn fyw ar gôf llauer yn yr ardal. Dywedai yr un stori mor aml nes iddo ei hun, yn y diwedd, ei coelio. Yr oedd, meddai wedi gweld 'cŵn annwn' yn dilyn nant oedd rhyw gwarter milltir o'i gartref. Daeth i gredu hyn ac fe gerddai rhyw dair milltir yn fwy i gyrraedd adre rhag ofn iddo gyfarfod y bwystfilod yma.

Arwyddion diffygiol.

Efallai nad diffygiol yw'r term cywir, oherwydd cyfeirio wyf at nifer o arwyddion 20 milltir yr awr sydd yn britho un o heolydd yr ardal. Gweithwyr sydd wedi bod yn llanw sawl pant yn yr hewl ac wedi gwneud gwaith da. Rhybudd yw'r rhain i beidio gyrru'n gyflym a chwalu'r gymysgedd ffres roddwyd mewn mannau ar yr hewl. Y tro cyntaf roedd pawb yn disgwyl gweld pobl wrth ei gwaith ac yn arafu, ond o fethu a gweld neb, diystyru'r arwyddion yw'r canlyniad i fwyafriaf y gyrrwyr.

Dau fodur gan bob teulu.

Yn ôl adroddiad yn ddiweddar roedd pwyllgor cynllunio wedi dweud fod yn rhaid i'r rhai sy'n datblygu stad o dai, ofalu fod lle gan bob tŷ i barcio dau gar. Gwna hyn synnwyr, er fod dau gar yn aml ddim yn ddigon i lawer teulu. Enghraifft wych am y diffyg o lefydd parcio yw'r heol drwy Treherbert Cwmann. Mae cael dwy restr o geir yn parcio ar bob ochr i'r ffordd yn golygu fod dim ond un modur yn medru dod trwyddo ar y tro. Does dim modd dwyn ychydig o dir o'r gerddi hir o flaen y tai i wneud mwy o le? Mae atebion digon syml i ambell i broblem ond i ni aros i feddwl. Pob hwyl – Cloncyn.

Dyddiadur



EBRILL

- 6 Rihysal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel y Graig, Llandysul. Plant am 3:30 ac Oedolion am 4:30y.p
- 7 Pwyllgor Canmlwyddiant Ysgol Llanwnnen yn yr ysgol am 7y.h. Dewch yn llw.
- 8 Cyfarfod Pwyllgor Apêl Llambod a'r Cylch Eisteddfod 2010 yn Ysgol Gynradd Ffynnonbedr am 7.30y.h
- 10 Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Y Gobaith a'r Angor' yn Theatr Felinfach.
- 10 Pwyllgor Llywio Prosiect Papurau Bro yn Swyddfa Antur Teifi, Aberteifi.
- 11 Cyngerdd Pwyllgor Pentref Cwmann yn Neuadd Sant Iago.
- 12 Cwmni Cudyll Coch, Llandeilo yn perfformio dwy gomedi yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.
- 13 Rihysal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Rhydygwin. Plant am 3:00y.p. ac Oedolion am 4:00y.p.
- 13 Cyngerdd gan Gôr Cardi-Gân yng Nghapel Pantydefaid, Prengwyn am 8y.h.
- 13 Rihysal Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambod ym Methel Silian am 2.00 o'r gloch.
- 13 Cyngerdd Corisma yn Eglwys Llangeitho.
- 15 Pwyllgor Apêl Plwyfi Llanwenog a Llanwnnen o Eisteddfod 2010 yn Neuadd Drefach am 7:30y.h. Dewch yn llw.
- 16 Ffair Briodas yn y Grannell ar Ddydd Mercher 16eg o Ebrill 1.30-7.30y.h.
- 19 Cynhelir Sioe Meirch Llambod ar gaeau Llanllŷr, Talsarn, Llambod. Mwy o wybodaeth ffoniwch Sioned Green 01570 423135.
- 20 Rihysal Cymanfa Ganu'r Undodiaid yng Nghapel Bwlch-y-Fadfa. Plant am 3:00y.p. ac Oedolion am 4:00y.p.
- 25 Pigion yr Eisteddfod gan Adran ac Aelwyd Llambod yn Ysgol Gynradd Ffynnonbedr am 7:30y.h.
- 25 Cymdeithas Rhieni ag Athrawon Ysgol Llanwenog yn cynnal Noson Bingo yng Nghlwb Rygbi, Llanybydder am 7.00 o'r gloch. Dewch yn llw!
- 26 Cyngerdd Corisma yn Neuadd Gynull, Llanyddryfri.
- 27 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Bwlch-y-Fadfa, Talgarreg am 2:00y.p. a 5:30y.h.

MAI

- 3 Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg am 2 o'r gloch. Rhaglenni gan Emyr ar 01545 590383 neu Janice ar 01545 598318.
- 9 Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder yn cynnal Noson Goffi yn Neuadd yr Eglwys am 7:30y.h.
- 10 Noson Elusen - Bwyd ac Adloniant -gyda Glan Davies a Paul Dazeley ym Mhabell Pantydefaid, Pontsian. Elw'r noson tuag at Ymchwil Cystic Fibrosis ac Ymchwil Cancer.

Drefach a Llanwenog

Diolch

Dymuna Siân Davies, Talfan ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfranodd i'r dysteb hael a dderbyniodd ar ei hymddeoliad o'i swydd fel Pennaeth Ysgol Llanwenog.

Roedd y cydweithrediad, cefnogaeth a'r cyfeillgarwch a gafodd gan staff, phlant, rhieni a'r gymdogaeth gyfan, wedi gwneud ei hamser yno yn un hapus iawn.

Hoffai ddanfôn ei dymuniadau gorau i'r Brifathrawes newydd ac i Ysgol Llanwenog yn y dyfodol.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Mrs Mary Price, Esgereinon yn well ar ôl iddi dderbyn llaw driniaeth yn Ysbyty Llanelli yn ddiweddar.

Ysgol Llanwenog

Bu'r mis diwethaf yn un prysur a chyffrous yn yr ysgol. Dechreuwyd gyda chawl i ddathlu dydd ein nawddsant, a bu Liza Williams yn beirniadu'r wisg a'r genhinen orau.

Fel rhan o waith Comenius bu'r Adran Iau yn brysur yn ysgrifennu chwedlau i rannu gyda'u cyfoedion yn eu hysgolion bartner yn Denmarc a'r Almaen. Penderfynodd ein hysgol ni ysgrifennu am chwedl Branwen.

Yna i ddathlu Diwrnod y Llyfr eleni, daeth llyfrau yn fyw yn yr ysgol gan fod pob plentyn wedi gwisgo i fyny fel eu hoff gymeriad allan o lyfr a chanmolwyd pawb am eu hymdrech arbennig. Y diwrnod canlynol, treuliodd Dosbarth y Babanod ynghyd â disgyblion Blwyddyn 3 brynhawn pleserus yng nghwmni Jac y Jwc, Jaci Soch a Harri Pob Peth ym Mhentrebach. Roedd pob plentyn wedi cael eu hudo gyda'u storiâu cyffrous! Diolch iddynt am eu croeso ac edrychwn ymlaen i'w gweld yn gloi eto!

Yn ystod y mis diwethaf hefyd cafwyd ymweliad gan Karen Roberts, Swyddog Addysg Diogelwch Tân. Roedd yn ddiddorol iawn ac fe ddysgodd y plant lawer o ffeithiau gwerthfawr am ddiogelwch yn y tŷ.

Tro Ysgol Llanwenog oedd hi eleni i ddiddori aelodau o Gymdeithas yr Henoed yn Eglwys Santes Gwenog, Llanwenog. Diolchwn iddynt am eu gwahoddiad caredig ac am y tē blasus a baratowyd gan wragedd yr Eglwys.

Diolch hefyd i Bryn Evans, Swyddog Datblygu Campau'r Ddraig am ddod i gynnal sesiwn gyda'r adran Iau.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 6 gyfle arbennig i fod yn rhan o 'Maths Roadshow' a gynhaliwyd gan Techniquet yn ysgol Dyffryn Teifi. Roeddent wedi mwynhau mas draw ac wedi dysgu llawer o ffeithiau

mathemategol newydd a chyffrous!

Bu disgyblion yr Adran Iau yn rhedeg Trawsgwlad yn Llambod. Fe wnaeth y plant yn arbennig o dda a chafwyd nifer o lwyddiannau. Gobeithir gael y canlyniadau erbyn y rhifyn nesaf.

Cymerodd Tomos, Rebecca, Emma a Rhys, aelodau o Glwb Drama, Theatr Felinfach, ran ym mherfformiad 'Twm Sion Cati' yn ystod y mis. Roedd y sioe yn arbennig o dda a llongyfarchiadau i'r pedwar ohonynt!

Ar ddiwrnod olaf y tymor galwodd y Ficer yn ôl ei arfer i gynnal Gwasanaeth y Pasg. Diolchwn iddo am ei ymweliadau cyson â'r ysgol. Ac i gloi y tymor mwynhaodd y plant helfa wyau pasg o gwmpas yr ysgol.

Adran yr Urdd, Llanwenog

Llongyfarchiadau i Barti Unsain a Pharti llefaru yr ysgol a enillodd yr ail safle yn Eisteddfod Gylch yn Llambod, ac i aelodau'r Ymgom, sef Jac, Carys, Rebecca a Rhys a ddaeth yn drydydd yn eu cystadleuaeth hwy. Diolch iddynt am wneud eu gwaith mor arbennig o dda.

Ac i gloi gweithgareddau'r tymor bu'r aelodau yn gwinio Nodau tudalen siap cwningen basg o dan arweiniad Menna Morgan, Tŷ Clyd. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw ac yn falch iawn o'u gwaith gorffenedig! Diolch o galon i Menna am ddod atom a gobeithiwn y gwelwn hi rywbryd eto yn yr adran.

C.Ff.I. Llanwenog

Ar Fawrth y 3ydd mi aeth nifer o aelodau'r Clwb i westy'r Grannell er mwyn diddanu aelodau o Gymdeithas Ceffylau a Merlod Cymreig yn eu dathliad Dydd Gwyl Dewi, a bwyta llond bol o gawl a phwddin reis! Bu Rhian, Meleri ac Elin yn diddanu wrth adrodd ac areithio ac mi fuon ni gyd yn canu caneuon allan o'n Hanner Awr Adloniant, dangos ein fideo cywaith clwb yn ogystal â chanu cân a gafodd ei chyfansoddi'n arbennig i'r noson. Diolch yn fawr unwaith yn rhagor i bawb a fu'n ein helpu i baratoi tuag at y noson.

Noson yng nghwmni ein llywyddion am y flwyddyn, Pete a Meinir Ebbsworth, oedd ar Fawrth y 10fed, a cafwyd noson llawn sbort yn eu cwmni. Mwy o fwyta oedd ar yr agenda ar Fawrth y 17eg, wrth i gwpwl ohonon ni fynd draw at Gareth yn y Goedwig i gael noson o baratoi at y Pasg. Bu Gareth yn amyneddgar iawn wrth ein dysgu ni sut i goginio 'pizza', 'sausage rolls' llysieuol, cacennau bach a 'swiss roll', ac mi roedd yr holl waith caled yn werth chweil wrth i ni fedru blasu ein campweithiau cyn mynd adre!



Ar nos Wener, Chwefror y 29ain, cynhaliwyd Dawns Dewis Swyddogion y Sir, a llongyfarchiadau mawr iawn i Iona Jones a chafodd ei dewis yn forwyn. Llongyfarchiadau hefyd i un o arweinyddion y Clwb, Catrin Bellamy Jones ar enedigaeth mab yn ystod y mis.

Sefydliad y Merched.

Yng nghyfarfod Chwefror, daeth Stephanie Jacobs atom i arddangos gwahanol grefftiau. Yn dilyn bu pawb o'r aelodau yn addurno wyau Pasg lliwgar iawn.

Ym Mis Mawrth, ein gŵr gwadd oedd Ieuan Roberts o Llambod yn dangos engrefftiau o'i waith coed. celfydd iawn. Cafwyd ganddo arddangosfa helaeth iawn o wahanol eitemau yn cynnwys llwyau caru o batrymau amrywiol iawn. Prynwyd llawer o'r eitemau gan yr aelodau. Noson i'w chofio yn wir oedd hon.

Eglwys Santes Gwenog.

Ar ddiwrnod mwyaf pwysig yn y calendar Eglwysig, sef Sul y Pasg, daeth nifer o aelodau a ffrindiau i ymuno â'r ficer y Parch Bill Fillery yng ngwasanaeth arbennig y Cymun Bendigaid. Ar ddechrau'r gwasanaeth cafwyd seremoni cynnau Cannwyll y Pasg a phawb yn canu clychau yn gorfoleddu atgyfodiad Crist. Yn dilyn cafwyd anerchiad pwrpasol gan y ficer ar 'Ystyr y Pasg'.

Wedi cyfnod dwys y Garawys roedd yr Eglwys yn hardd iawn gyda gosodiadau celfydd iawn o flodau, a'r cyfan yn cyfrannu at naws hyfryd a gogoneddus y dydd arbennig hwn.

Diolch i'r gwagedd am eu cyfraniadau a'u medrusrwydd gyda'r gwahanol drefniadau. Diolch i Bronwen am rodd flynyddol o Lili'r Pasg er côf am Bill.

Ymfalchiwn yn llwyddiant ein haelodau ifanc sef Siwan Davies, Llysdery, ar ennill y gadair yn Eisteddfod Ysgol Gyfun Llambod; Rhian Wyn Thomas, Llechwedd sy'n dal i ddisgleirio ym myd golff, (fel y cyfnodwyd yn rhifyn diwethaf o Clonc); ac i Sioned Davies, Cartws Rhydlewis ar basio Gradd 3 mewn chwarae'r piano.

Dymunwn wellhad buan i Mrs

Jessie Evans, Vale of Cledlyn, sydd yn Ysbyty Glangwili. Cofiwn am bawb sy'n dioddef salwch neu golled yn ddiweddar.

Enillwyr Clwb Cant Mis Mawrth:- Charlotte Mellor - £15.00; Eirlys Jones, Gellideg - £10.00 a Richard Bone - £5.00.

Bethel Drefach

Tro Bethel oedd cynnal Cwrdd Gweddï Chwiorydd y Byd eleni, a hynny ar Mawrth 7fed. Croesawyd pawb yn gynnes gan Mrs Dilwen George, a chaed cynrychiolaeth oddiwrth Eglwysy Llanllwni, Llanybydder a Llanwenog; Capeli Capel y Bryn, Seion, Capel Nonni, Bethel a Brynteg. Paratowyd y rhaglen gan wragedd Guyana, de America, a chafwyd araith ar eu cefndir gan Eifion Davies.

Cymdeithas yr Henoed

Eglwys y Plwyf, Llanwenog oedd lleoliad y Cyfarfod ym Mis Mawrth, a chroesawyd pawb yn gynnes gan Dilwen George, y Llywydd. Derbyniwyd nifer o ymddiheuriadau, a darllenwyd y cofnodion gan Yvonne Davies.

Pleser mawr oedd cael croesawu Staff a phlant Ysgol Llanwenog atom i'n diddanu, a gwnaed hynny gan y Llywydd. Diolchodd Ms Heddwen Davies, Prifathrawes yr Ysgol am y gwahoddiad i ddod, gan ddweud fod y plant wedi edrych ymlaen yn eiddgar at y cyfle. Cyflwynwyd yr amrywiol eitemau gan y plant eu hunain, ac roedd yn bleser pur cael gwrando arnynt o'r lleiaf i'r hynaf, - yn unigolion, phartion a chôr. Roedd nifer o'u heitemau â naws Gŵyl Ddewi iddynt, ac eraill yn eitemau'r Urdd.

Diolchwyd i'r plant a'u hathrawon gan Eifion Davies, a dywedodd mor bwysig oedd hi i roi cyfle i'r plant cael cymeryd rhan mewn gweithgaredd yn y gymuned. Da iawn chi blant, ac edrychwn ymlaen at gael eich cwmni eto i'r dyfodol. Braf oedd cael cwmni'r Ficer, Y Parch. Bill Fillery hefyd.

Bu'r plant yn mwynhau bisgedi a sudd oren cyn ymadael, ac yna caed cyfle i'r aelodau mwynhau cwpanaid a danteithion wedi eu paratoi gan aelodau'r Eglwys, a diolchwyd yn gynnes iddynt gan Irene Jones, Llambod.

Dyna ddiwedd ar gyfarfodydd y gaeaf, gan y bydd y triapiau dyddiol yn dechrau'r mis nesaf. Trip lleol bydd hwn, gan ymweld â Soar y Mynydd, ac yna o amgylch Llyn Brianne i Lanymddyfri. Bydd y bws yn gadael Llambod am 10 o'r gloch. Cyfyngir y rhifyn tro hwn i 35 oherwydd maint y bws all deithio ar hyd y ffordd. Felly, - 'y cyntaf i'r felin,---'. Enwau i Yvonne/Eifion Davies 480590.

Cwmann

Ysgol Carreg Hirfaen

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am eu llwyddiant yn nhrawsgwlad cylch Llambled a phob lwc yn y rownd nesaf yn Llangrannog.

Bechgyn blwyddyn 3 - 1af – Daniel Thomas, 2il Alwyn Morgan, 5ed – Tomos Jones, 7fed – Daniel Harrison, 8fed – Iwan Williams. Merched Blwyddyn 3 - 2il – Marek Owen, 5ed – Sara Jones. Bechgyn blwyddyn 4 - 2il – Rhydian Edwards. Merched blwyddyn 4 - 1af – Hanna Evans, 10fed – Elan Lewis. Bechgyn blwyddyn 5 - 8fed – Shaun Phillips. Merched blwyddyn 5 - 3ydd – Naomi Chalder, 4ydd – Shanell McMullan. Bechgyn blwyddyn 6 - 2il – Rhys Bowden, 5ed – Dafydd Morgan, 8fed – Rhys Cadogan. Merched blwyddyn 6 - 1af – Rhian Evans.

Buodd y plant yn cymryd rhan yn nhrawsgwlad Dyfed yn ddiweddar a llongyfarchiadau mawr i Marek Owen am ddod yn 14eg yn ei ras allan o dros gant o blant.

Cafodd plant blynyddoedd 5 a 6 (bechgyn a merched) y cyfle i chwarae rygbi ar gaeau clwb rygbi Aberaeron a chwaraeodd y tim yn arbennig o dda. Da iawn chi.

Daeth llwyddiant i un o ddisgyblion blwyddyn 3 Carreg Hirfaen yn Eisteddfod yr Urdd ym Mhontrhyfendigaid yn ddiweddar wrth i Marek Owen ennill y wobwr gyntaf am ganu LiliWen Fach. Pob lwc i ti Marek yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Daeth y côr yn drydydd am ganu Mishimba Mishamba mewn cystadleuaeth glos iwan. Hoffem ddiolch i Mrs D Hopkins Evans ac Alwena Evans am eu cymorth wrth baratoi'r parti unsain a'r côr. Hefyd ar y llwyfan ac yn ennill canmoliaeth uchel yn y gystadleuaeth llefaru ail iaith oedd Christopher Barker o flwyddyn 6.

Hoffem ddiolch i'r awdures Mrs Rhiannon Ifans am ymweld â'r ysgol ar ddiwrnod y llyfrau. Cafwyd gweithdai bendigedig â'r plant yn elwa'n fawr o'r profiad. Diolch i Owen Thomas am drefnu'r ymweliad.

Ar ddechrau mis Mawrth cynhaliwyd Eisteddfod Gwyl Ddewi Carreg Hirfaen yn Neuadd Brofanna, Ffarmers. Bu pob un o'n disgyblion ar y llwyfan yn adrodd neu canu'n unigol a chanu yn y côr, yn ogystal a gwneud gwaith llaw fel ysgrifennu dyddiadur Saesneg, creu portread Gymraeg, cyflawni gwaith celf a chyflwyno llawysgrifen orau. Cadwyd ein beirniaid eleni Mr Eric Williams a Mr Christopher Jones yn brysus iawn trwy'r dydd ac mae'r plant a'r staff yn ddiolchgar iawn i'r ddau am gytuno i ymgymryd a'r gwaith pwysig o feirniadu yn yr Eisteddfod. Cafwyd perfformiadau rhagorol gan bawb. Enillwyd y tlysau ar gyfer y plant efo'r swm uchaf o bwyntiau ar ddiwedd



y dydd oedd Bryn Jones a Lisa Elan yng Nghyfnod Allweddol 1 a Marek Owen a Gwennan Holt yng Nghyfnod Allweddol 2.

Cafwyd cystadlu brwd am Gadair yr Eisteddfod, a'r bardd buddugol eleni am bortread ar y testun 'Branwen' oedd Gethin Morgan o flwyddyn 6. Enillydd y fedal am ysgrifennu dyddiadaur Saesneg ar 'Fywyd plentyn yn yr Oes Fictoria' oedd Hannah Evans o flwyddyn 6 ac enillydd Cadair Cyfnod Allweddol 1, am ysgrifennu stori oedd Lisa Cadi o flwyddyn 2.

Y tŷ buddugol yn yr Eisteddfod eleni oedd Teifi, ond roedd y pwyntiau yn agos iawn rhwng Teifi a Cothi.

Hoffai plant, staff a rhieni'r ysgol ddymuno'n dda i ddwy aelod o'n staff sydd yn gorffen ar ddiwedd y tymor. Yn gyntaf i Miss Rhian Wyn Jones sydd yn gadael Carreg Hirfaen i ddechrau swydd newydd yn Ysgol Gynradd Penboyr, Castell Newydd Emlyn. Pob lwc Miss Jones a diolch. Ac hefyd i Mrs Emma Douglas, sydd wedi bod gyda ni am bedair mlynedd fel cynorthwydd dysgu. Pob lwc i'r ddwy ohonoch a diolch yn fawr am y cyfoeth o brofiadau a cafodd y plant yn eich saith mlynedd gyda ni.

Sefydliad y Merched

Dathlwyd Gwyl Dewi gyda chawl a phob math o ddantiethion eraill yn yr Hedyn Mwstard ar nos Lun Mawrth 4ydd. Roedd yno groeso cynnes yn ein haros fel arfer gyda Liz a'r staff. Roedd y bwyd yn flasus a'r gwmnieth yn dda. Ein gwraig wadd oedd Mrs. Heini Thomas, Deffrobani, Heol y Gogledd a phrifathrawes ysgol Dihewyd. Wrth i Gwen ei chyflwyno mi wnaeth longyfarch Heini ar staff am yr adroddiad a ddarlennwyd yn y Cambrian News yn dilyn yr Arolwg llwyddiannus a gwasant yn yr ysgol. Mae'n hyfryd meddwl fod ysgol wledig wedi derbyn y fath glod a dymuniadau gorau i'r dyfodol. Roedd Heini wedi paratoi cwis diddorol iawn ar ein cyfer a phob un yn ceisio ei gorau i'w gwblhau. Morfydd a Veronica oedd y pencampwyr. Cyflwynodd Heini potiau o Genin Pedr i'r ddwy. Diolchodd Gwyneth yr ysgrifennyddes yn gynnes iawn i Heini ac i Liz a'r staff am y ddwy wledd fendigedig. Cafwyd cyfarfod busnes byr i ddilyn. Llongyfarchodd Gwen, June ar ddod yn famgu. Mab bach i Iona a Phil. Cwblhawyd trefniadau ar gyfer cyfarfod Grŵp

Dyffryn Teifi. Enillwyd yr raffl gan Veronica.

Ar nos Wener 14eg Fawrth cynhaliwyd cyfarfod Dyffryn Teifi yn y Ganolfan gyda 75 o aelodau y gangen yn bresennol. Noson goginio oedd gennym yng ofal Mrs. Eleri Hughes, Llanrhystyd a Mrs. Helen Menulty Jones o Landdeniol roedd pawb wedi mwynhau a chael cyfle i flasau'r bwyd. Cyn troi am adref roedd aelodau cangen Coedmor wedi paratoi Te Cymreig. Taliwyd y diolchiadau gan Mrs. Cynthia Spragg.

Llongyfarchiadau

Penblwydd hapus i Mr. Evans Jones, Trefin sydd newydd ddathlu ei benblwydd yn 80 oed.

Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Mr. Evan Jones, Trefin a Mr. Davies Tom Davies, Brynteifi sydd newydd dreulio rhai diwrnodau yn yr ysbyty. Edrychwn ymlaen i'ch gweld adref yn fuan.

Baban Newydd

Llongyfarchiadau i John a June, Maesteg ar enedigaeth wyr bach, mab i Iona a Phil. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Tomos Rhys Jones, Araul ar basio Step 2 gyda theilyngdod o dan Nawdd London College of Music. Cafodd Rhys farciau llawn yn y theori hefyd.

Clwb 225 Mis Mawrth 08

1. 222, Richard Williams, Ty Howell, Cwmman, 2. 19, Alan Morgan, Haulfryn, Cwmann, 3. 74, Endaf Morgan, 2 Cwrt Deri, Cwmann, 4. 166, A. Davies, Brynteifi, Cwmann, 5. 46, R. Brown, 31 Kingsmead, Llambled, 6. 101, Nora Arrowsmith, Neuaddfach, Cwmann, 7. 210, Mrs. Margaret Jones, Glanhelen, Ffordd y Gogledd, Llambled, 8. 41, Cerdin Price, Langwm, Heol y Bryn, Llambled, 9. 196, Sheila Lewis, Brynawel, Cwmann, 10. 65, Gillian Mason, 4 Treherbert, Cwmann.

Clwb 170 Mis Mawrth 08

1. Gavin Evans & Rebecca Evans, Annwylfan, Llanllwni, 73, 2. Mr & Mrs. Jenkins, Glen Cottage, Rhosilli, 76, 3. Mrs. Andrea Lewis, Llety Gwyn, Llangybi, 148, 4. Mrs Phyllis Price, Brynderi, Cwmann, 89, 5. Mr. Edwin Harries, 8 Nant y Glyn, Cwmann, 23, 6. Miss Stephanie James, 15 Bro Han, Llanwnnen, 141, 7. Mr. Cerdin Price, Langwm, Heol y Bryn Lampeter, 137, 8. Mr. Phillip Lodwick, Penrhyn, Cwmann, 138, 9. Mrs. Shirley Northam, 38 Bro Einon, Llanybydder, 132, 10. Mrs. Lena Williams, 39 Heol-Hathren, Cwmann, 98.

Cwmsychpant

Priodas Arian

Yn ystod mis Mawrth dathlodd Gareth a Nanna Ryder, Tyngrug-ganol eu Priodas Arian. Dymuniadau gorau i chwi i'r dyfodol.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Meleri Davies, Tyngrug-Isaf yn dilyn ei hanffawd yn ddiweddar.

Gobeithio fod Olive Davies, Arosfa yn gwella yn dilyn ei llawdriniaeth a gafodd yn Ysbyty Bronglais yn ystod diwedd mis Mawrth. Hefyd, cofiwn am Rob a Nia, Brynmeddyg yn dilyn eu damwain diweddar. Gobeithio eich bod i gyd yn well erbyn hyn.

Eisteddfodau'r Pasg

Llongyfarchiadau i Elin, Rhys a Meleri Davies, Tyngrug Isaf ar eu llwyddiant mewn gwahanol eisteddfodau adeg y Pasg ac hefyd i Cerys Pollock, Brynmeddyg a Meinir Davies, Caerwenog ar eu llwyddiant hwythau yn Eisteddfod Capel y Groes.

Clwb Clonc

Ebrill 2008

£25 rhif 232:

Wyn Jones,
Hendai, Cwmann.

£20 rhif 16:

Phyl Chapman,
Fflat 2, Bryngwyn,
Ffordd y Gogledd, Llambled.

£15 rhif 196:

Gethin Hatcher,
Cefnhafod, Gorsgoch.

£10 rhif 375:

Manon Haf Richards,
Lowtre, Llanwnnen.

£10 rhif 406:

Elsa Thomas,
9 Llys Myrddin, Caerfyrddin.

£10 rhif 444:

Mrs Mair Williams,
5 Llys Idwal, Llambled.

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro." Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.

£25.00 am chwarter tudalen.

£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:

01570 480015

ysgrifennydd@clonc.co.uk

Llanbedr Pont Steffan

Apel Eisteddfod 2010

Mae lleoliad y pwyllgor nesaf wedi newid i Ysgol Ffynnonbedr. Croeso cynnes i uniogolion ynghyd â chynrychiolwyr o fudiadau, eglwysi ac ysgolion Llambled a'r cylch i ddod ynghyd nos Fawrth 8 Ebrill am 7.30y.h.

Llwyddiant Eithriadol

Bu aelodau Adran yr Urdd Llambled yn llwyddiannus iawn yn Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion a gynhaliwyd ym Mhontrhydfendigaid. Yn dilyn ei llwyddiant yn ennill 4 cyntaf ac un ail yn yr Eisteddfod Gylch bu Lowri Elen yn fuddugol eto yn y gystadleuaeth llefaru a hefyd yn yr unawd i flynyddoedd 5 a 6. Daeth Meirion Sion Thomas i'r brig mewn 3 cystadleuaeth ac yn ail mewn un yn y Cylch ac yn y Bont fe'i dyfarnwyd yn ail agos yn yr unawd cerdd dant i flynyddoedd 3 a 4 a chipiodd y trydydd safle yn y gystadleuaeth cyflwyno alaw werin dan 12 oed. Bu'r parti unsain dan arweniad Janet, yn absenoldeb Rhiannon, yn fuddugol yn y Cylch a daeth y grwp llefaru hefyd yn gyntaf. Roedd yna gymeradwyo brwd a gorfoleddu pan ddyfarnwyd y ddau barti yn gyntaf yn Rhanbarth. Tro yr aelodau dros 12 oed oedd cystadlu ar 14eg o Fawrth yn Ysgol Penglais ac fe barhaodd y llwyddiant gyda'r Aelwyd hefyd yn fuddugol mewn 4 cystadleuaeth. Cyflawnodd Aron Dafydd y dwbwl drwy ennill yr unawd bechgyn a'r llefaru i flynyddoedd 7 – 9 a bu ei chwaer Elliw yn fuddugol yn y gystadleuaeth unawd cerdd dant i flynyddoedd 10 – 13 ac fe'i dyfarnwyd yn ail hefyd yn y llefaru. Yn goron ar y cyfan enillodd y grwp llefaru dan 15 oed y wobwr gyntaf. Yn ogystal cipiodd Gwawr Hatcher y trydydd safle yn yr unawd a'r unawd cerdd dant i flynyddoedd 7 – 9, Dewi Uridge y trydydd safle am gyflwyno alaw werin, Llion Thoams y trydydd safle ar yr unawd llinynnol i flynyddoedd 7 – 9 a daeth Aled Wyn Thomas yn ail ar yr unawd bechgyn 10 – 13. Llongyfarchiadau canlonnog i'r aelodau i gyd ar eu llwyddiant a phob lwc i Lowri Elen, Aron, Elliw a'r partion yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llandudno ar ddiwedd Mai. Cyflawnwyd camp rhyfeddol gan yr aelodau yn dod i'r brig mewn 8 cystadleuaeth. Mae pawb yn yr Aelwyd yn ymfalchio yn llwyddiant Guto Gwilym o Ysgol Dyffryn Teifi ar ennill cystadleuaeth y monolog i flynyddoedd 10 – 13. Bu Guto yn aelod ffyddlon a gweithgar o'r Aelwyd ar hyd y blynyddoedd ac mae'n dal mewn cysylltiad agos. Mae dyled yr aelodau yn fawr iawn i Elin a Rhiannon am roi o'u hamser prin i hyfforddi'r partion.

Bedyddwyr

Daeth cynrychiolaeth o eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi sef Aberduar, Bethel Silian, Brynhafod Gorsgoch, Caersalem Parcyrhos, Noddfa a Seion Cwrtnewydd ynghyd i Aberduar i ddathlu Gwyl Ddewi. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parch Jill Tomos. Mwynhawyd pryd o fwyd ardderchog wedi ei baratoi gan Louise o'r Cross Hands a hyfryd oedd cael cyfle i gymdeithasu o amgylch y byrddau. I ddiweddu'r noson, pleser oedd gwrandao ar ieuenctid clybiau ffermwyr ifanc Llanwenog a Bro'r Dderi yn ein diddori mewn pennillion a chan – y rhan fwyaf ohonynt a chysylltiadau agos ag eglwysi Aberduar a Bethel. Cyn troi am adref diolchodd ein Gweinidog i bawb oedd wedi cyfrannu tuag at noson lwyddiannus a difyr iawn.

Noddfa

Braf oed gweld cynulliad teilwng wedi dod ynghyd i Noddfa ar Sul y Blodau i wasanaeth arbennig ar lafar ar gan yng gofal yr Ysgol Sul wedi ei lunio a'i baratoi gan Janet. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Beca Creamer a chyhoeddwyd yr emynau gan Osian Jones, Tomos Rhys. Cyflwynwyd gweddiau a darlenniadau graenus o'r Beibl gan Cerys Roberts, Sian Roberts Jones, Alwena Evans, Helen Roberts a Llinos Jones. Hefyd pleser oedd gwrandao ar unawdau swynol gan Hannah Timmis, Lowri Elen a Tomos Rhys, adroddiad deallus gan Elliw Davies, cân a sgwrs ddiddorol a phwrpasol am wyau gan Aron Davies, Dewi Uridge a Steffan Roberts a datganiad hyfryd o eiriau'r Pasg ar yr alaw Troyte gan Alwen, Helen a Sian. Unwiath eto mwynhawyd cyfraniad y plant lleiaf yn fawr iawn sef Lisa Evans, Beca Roberts, Elan Jones, Tomos ac Osian a phob un ohonynt yn rhoi o'u gorau ac yn amlwg wrth eu bodd yn cymryd rhan. I gloi'r oedfa ymunodd y rhai hynaf mewn perfformiad swynol o emyn gyfoes y Pasg gyda Llinos, Alwena ac Elliw yn canu pennill yr un. Talodd y Gweinidog y Parch Jill Tomos deyrnged uchel i'r plant a'r bobol ifanc am eu dehongliad arbennig o neges y Pasg a diolchodd yn gynnes i Janet a'r rhieni i gyd am eu cefnogaeth. Llongyfarchwyd Lowri Elen, Aron ac Elliw ynghyd a'r rhai oedd yn aelodau o bartion Adran ac Aelwyd yr Urdd ar eu llwyddiant mawr yn yr Eisteddfod. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Alwena a chasglwyd gan Aled a Tomos Rhys. Cytunai pawb mai pleser a braint oedd cyd addoli gyda'r plant a'r bobol ifanc mewn oedfa gofiadwy i ddathlu'r Pasg.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod Aelwyd yr Urdd yn Ysgol Ffynnonbedr ar 19 Chwefror a braf oedd gweld 37 o'r aelodau yn bresennol. Cyfeiriodd Janet at y gystadleuaeth Aquathlon sef ras nofio a rhedeg a gynhelir yn Aberystwyth ar Sadwrn 21 Mehefin. Treuliwyd orig ddiddorol a difyr dros ben mewn gweithdy drama yng ngofal Sian Jones, Croesor, Cwmann. Cafwyd llawer o hwyl a sbri yn cymryd rhan mewn tasgau gwahanol yn cynnwys portreadu sefyllfaoedd amrywiol drwy gyfrwng mynegiant wyneb yn unig a hefyd drwy gyfrwng geiriau. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr iawn. Diolchodd Dewi Uridge i Sian am noson arbennig a hefyd i Helen, Rosaline a Janet am gadw trefn!

Daeth criw niferus ynghyd ar Fawrth y trydydd i fwynhau Eisteddfod Ddwl. Croesawyd Llinos Jones a Rhian Twynog beirniad o fri gan Janet. Rhannwyd yr aelodau i dri tim sef Hambons, Llio'r Llo a Steffani a chafwyd noson ddifyr yn llawn hwyl yn cymryd rhan mewn cystadlaethau amrywiol yn cynnwys meimo i gerddoriaeth, côr anifeiliaid, stori a sain a gorffen limrig. Amlygydd talent rhyfeddol ambell aelod!! Ar ddiwedd y nos tim Steffani oedd ar y brig. Diolchodd Lowri Pugh Davies i'r beirniaid am ymuno yn yr hwyl ac hefyd i Rhian Jones a Janet am gadw trefn.

Dydd Gweddi'r Chwiorydd

Cynhaliwyd cwrdd gweddi bydeang y Chwiorydd yn Noddfa a braf oedd gweld cynulliad teilwng iawn wedi dod ynghyd. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan wragedd Cristnogol Guyana ar y thema "Daw doethineb Duw a dealltwriaeth newydd". Cymerwyd rhan gan chwiorydd eglwysi Llambled a'r cylch a chyfoethogwyd yr oedfa yn fawr gan anerchiad pwrpasol ac amserol y Parchedig Beti Morris. Diolchwyd yn gynnes iddi gan Eirian Williams, Cadeirydd y pwyllgor lleol a thalodd ei gwerthfawrogiad hefyd i bawb oedd wedi cymryd rhan ac i Weinidog ac aelodau Noddfa am eu croeso. Casglwyd y swm sylweddol o £75. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Janet Evans.

Diolch

Dymuna Sue, Boes Tocyn ddiolch i'w chwsmeriaid i gyd am eu cefnogaeth dros y wyth mlynedd ddiwethaf. Diolch hefyd am y cardiau a'r anrhegion. Mae Sue a Jean yn gwerthfawrogi'r cyfan yn fawr iawn.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys a'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli

anwyliad yn ystod y mis.

Cofio Glan

Dymuna Mrs. Peggy Evans o Nantyffin, Heol Llanfair Llambled, Richard, Huw a Susan a'u teuluoedd ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Diolch am y llu o lythyron, cardiau, ymweliadau a rhoddion at achosion da er cof am Glan. Gwerthfawrogydd hefyd gofal tyner y meddygon a'r nyrsys lleol ac yn yr ysbyty. Yr oedd y gwasanaeth coffa yng Nghapel Shiloh o dan ofal ei weinidog y Parchedig J. Elwyn Jenkins a thrysorwyd yn fawr ei deyrnged gyfoethog a chlodwiw. Diolch hefyd i'r organyddes Mrs Gwenda Richards am ei gwasanaeth parod, ac i Mr. T. Eirwyn Jones am drefnu'r angladd gyda'i urddas arferol. Derbyniodd Eglwys Shiloh lun Tapestri o'r "Bugail Da" gan y teulu er cof am Glan. Gwerthfawrogydd y rhodd yma yn fawr. Diolch am y ffraint o gael ei adnabod. Yr oedd yr Eglwys a'r Gymdeithas yn Shiloh yn golygu llawer iawn iddo.

Shiloh

Daeth tymor llwyddiannus y Gymdeithas Ddiwyllianol i ben wrth ddathlu ein noson gawl Gwyl Ddewi. Er fod yna lawer o ymddiheuriadau daeth dros ddeugain ynghyd i fwynhau pryd hynod flasu yn ôl yr arfer. Cyflwynodd y Llywydd Mrs Gwenda Richards y gwr gwadd sef yr ysgolhaig disglair o Lanllwni – Yr Athro David Thorne. Cafwyd anerchiad hynod amserol ganddo wrth iddo ganolbwyntio yn ei araith ar eiriau Dewi Sant "I gofio gwneud y pethau bychain". Cyfeiriodd at nifer o gymeriadau a chymdeithasau yn ystod ei fagwraeth yn Llangennech ac yn y fro yma sydd yn gweithio yn dawel er mwyn cadw ein iaith a'n diwylliant yn fyw. Soniodd am y llyfr "Cymeriadau Bro" lle mae dros deugain o gymeriadau wedi cyfrannu mewn sawl maes a llawer ohonynt yn "Halen y Ddaear" yn eu broydd. Diolchodd y Parchedig Elwyn Jenkins i'r siaradwr am anerchiad a erys yn hir yn y cof. Diolchodd i'r gwagedd am baratoi ar gyfer y noson ac yn enwedig i Sian Jenkins, Castell am wneud y cawl ac i Eirwen Davies am goginio'r reis. Diolchodd i famau ifanc yr ysgol Sul am eu parodrwydd i weini. Diolchodd Gwenda hefyd i swyddogion y Gymdeithas am eu cymorth ac i'r holl aelodau am eu teyrngarwch yn ystod y tymor. Dymunodd yn dda i Lywydd y tymor nesaf sef Mrs. Margaret Jones, Coedmor. Daeth y noson i ben drwy gyd ganu y weddi wladgarol o waith Elfed "Cofia'n Gwlad Benllywydd Tirion".

Llanbedr Pont Steffan

Cylch Cinio

Uchafbwynt y flwyddyn heb os yw noson y gwagedd ac nid oedd eleni yn eithriad. Yng Ngwesty'r Glynhegog y cynhaliwyd yr achlysur Nos Iau 6 Mawrth ac mi gafwyd pryd o fwyd rhagorol, cwmni da ac awyrgylch hyfryd. Cyflwynodd y Llywydd Owen Jones ein gwestai – Y Taeogion sef y Prifardd Ceri Wyn Jones ac enillydd Coron Eisteddfod yr Urdd Emyr Davies – y ddau o ardal Aberteifi, mewn ffordd gartrefol, lliwgar ac effeithiol. Nid oedd y trydydd aelod o'r tim sef y Prifardd Tudur Dylan yn medru bod yn bresennol oherwydd marwolaeth ei fam ac mi estynnwyd gan ein Llywydd ein cydymdeimlad. Soniodd Owen mai ystyr taeog yn ôl cyfraith Hywel Dda oedd gŵr caeth gyda statws is raddol mewn cymdeithas ond nid oedd dim yn is raddol yn yr adloniant a gyflwynwyd gan ein gwestai. Cafwyd ystod eang o gerddi yn llawn hiwmor, rhai hefyd yn ddifrifol a rhywfain o dynnu coes ambell aelod diniwed o'r cylch!! Cyflwynwyd cerddi ar destunau fel yr M4, aralleiriad ar stori'r Nadolig, Yr Heddegidwad John Davies, Cilrhiwe (prop pen tyn Llanelli a Chymru) a'r clasur o sgit ar y beirniad cerdd pwysig mewn Eisteddfod. Roedd y cyfan yn adlewyrchiad o ddawn a thalent unigryw ein gwestai. Yn wir roedd hon yn noson i'w chofio a gwerthfawrogydd nawdd gan Yr Academi tuag at dreuliau'r noson. Eirwyn Williams gafodd y fraint o ddiolch i'r beirdd. Yn wir mi ysgrifennodd englyn fach i'w cyfarch:-

Yng Nglyn Hebog mae'r hogiau;-
yn ein llys nawr bydd llais a
geiriau,
tri bardd uwch trwr byrddau,
yn rhoi naws war i Nos Iau.

Ar ddiwedd y noson diolchodd y Llywydd i'r swyddogion Alan Morgan, Rhys Bebb Jones a Twynog Davies am eu cymorth a'u cefnogaeth yn ystod blwyddyn lwyddiannus iawn i'r cylch. Penodwyd John Davies, Brynecastell yn is-lywydd ac Ieuan Roberts yn Llywydd y tymor nesaf. Mewn geiriau cryno a phwrpasol diolchodd Ieuan am y fraint ac am gyfraniad clodwiw Owen Jones. Yn dilyn barn ac ymateb yr aelodau penderfynodd y pwyllgor mai yng ngwesty'r Glyn Hebog bydd cyfarfodydd y tymor nesaf. Croeso cynnes iawn i aelodau newydd.

Penblwydd Arbennig

Ar ddydd Gwener y Groglith dathlodd Mrs Beryl Davies, Aweldeg, Heol Cambrian ei phenblwydd yn 80 oed. Gobeithio i chwi fwynhau eich diwrnod!

Ysgol Ffynnonbedr

Bu nifer o'n plant yn llwyddiannus yn Eisteddfod Gylch yr Urdd ac hefyd yn y Sir. Enillwyr y Cylch oedd y canlynol :- Parti Unsain, Dawnsio Disgo, Cyd-adrodd i ddysgwyr, Charlotte Saunders, unawd, Meirion Thomas, unawd, llefaru, alaw werin a cherdd dant. Lowri Jones, piano, telyn, llefaru a unawd. Klean Dalton dawnsio disgo. Parti canu a llefaru'r Adran. Yn ail daeth Meirion Thomas - canu unawd. Lowri Jones yn dawnsio disgo a cherdd dant ac yn drydydd Elan Jones - unawd, Caryl Jacob - llefaru, cerdd dant ac unawd. Natalie Plant - unawd, Hannah Timmis cerdd dant a Jessica Davies - dawnsio disgo - gwyh.

Yn y sir daeth y grŵp dawnsio disco'n ail a Klean Dalton yn gyntaf. Ym Mhonrhydfendigaid cafodd y Parti Unsain, y cyd-adrodd i Ddysgwyr ac hefyd Kaydee Evans y drydedd wobwr yn eu cystadleuaethau. Enillodd Lowri Jones cyntaf am ganu a llefaru a chafodd yr Adran wobrau yn y partïon canu a chyd-adrodd.

Yn y Celf a Chrefft cafodd Carie Collom gyntaf yn Technoleg Bl 3 a 4 a Meirion Thomas yn ail. Daeth Caitlin Page yn drydydd yn y Technoleg Bl 5 a 6. Llongyfarchiadau i bawb a phob dymuniad da yn y Genedlaethol

Cynhalwyd Traws gwlad y Cylch yn ddiweddar. Daeth y plant canlynol yn gyntaf, ail neu drydydd yn eu hadrannau. Merched Bl 3:- Cyntaf, Lionie Mason, Ail, Ffion Harries Green Bl 4:- Ail, Catrin Davies Bl 5:- Ail, Caitlin Page Bl 6:- Ail, Sophie Hall Jones. Bechgyn Bl 3:- Trydydd, Robert Slawkowski Bl 4:- Trydydd, Jake Carter Bl 5:- Cyntaf, Reuben Beddoe, Trydydd, James Edwards Bl 6:- Cyntaf, Rhodri Price, Trydydd, James Petty. Enillodd yr ysgol pob adran ond am y Bechgyn ym Mlwyddyn 3. Mae pawb yn ymhyfrydu yn eu llwyddiant.

Bowls

Cynhaliwyd noson o ddathlu llwyddiannus iawn yng Nghlwb Bowlio Llambled yn ddiweddar. Noson i anrhydeddu llwyddiant Anwen Butten ym Mhencampwriaethau'r Byd yn y maes bowlio yng Nghristchurch, Seland Newydd 2008. Er i Anwen feistrol y grefft o fowlio mae cryn lwyddiant wedi dod i'w rhan. Bu'n aelod o'r Tim Cenedlaethol dan bump ar hugain o 1988-1998 ac yn dal yn aelod o'r tim hyn oddi ar hynny. Enillodd Fedal Arian (Unigol) dan bump ar hugain dros Gymru yn 1998, Medal Efydd ym Mhencampwriaethau Prydan Fawr 1999, Medal Efydd yng Nghemau'r



Gymanwlad 2002, Medal Efydd ym Mhencampwriaethau'r Byd, Leamington 2004 a medal Arian ym Mhencampwriaethau'r Atlantic, Ayr 2007. I goroni'r cyfan enillodd Fedal Arian fel rhan o dîm, Hannah Smith, Wendy Price, Isobel Jones, Anwen Butten (Skip) a Medal Efydd mewn tîm arall Hannah Smith, Anwen Butten, Kathy Price (Skip) ym Mhencampwriaethau'r byd 2008. Chwaraewyd 27 gêm, colli 5 a dwy gêm gyfartal.

Diolchodd Anwen am y croeso ac am y noswaith arbennig iddi hi. Cafwyd adroddiad manwl a diddorol ganddi am y twrnament a thu ol y llenni, yr ymarferion, y seicoleg, gwaith tîm a'r parch tuag at ei chyd chwareuwyr.

Diolchodd Mr. Elfan James, Cadeirydd iddi am ei adroddiad trylwyr a'i llongyfarch ar uchafbwynt y chwarae trwy ennill dwy fedal.

Ar ran y clwb cyflwynodd Miss Bet Davies Cadeiryddes ac is lywydd C.B.M.C farddoniaeth iddi o waith Mr. Aeron Davies i gofio am yr achlysur.

Cyflwynodd Mr. Edwin Harries, Llywydd dusw o flodau a'i llongyfarch ar ei pherfformiad.

Cyflwynodd Mr. Arthur Roderick y gwahoddedigion, Mr. Chris Thomas, Maer Llambled ar ran Cyngor y dref, Cyngorydd Ifor Williams a'r Cyngorydd Hag Harries. Yn eu tro, llongyfarchwyd Anwen am ei buddugoliaeth a'r clod a ddaeth i'w rhan a'i theulu. Hefyd ei bod wedi dod a chlod i'r clwb, dre Llambled a Chymru.

Torrwyd cacen arbennig y dathlu gan Anwen. Cafwyd fyrbryd i ddilyn wedi ei baratoi gan ferched y clwb. Treuliwyd noson hwylus iawn yng nghwmni Anwen a'r teulu.

Cymdeithas Hanes Llambled

Mae'n rhaid fod cyfarfod mis Mawrth yn cymeryd ei le fel un o'r goreuon eto. Wedi croesaw'r aelodau, cyflwynodd Selwyn Walters, Cadeirydd, y siaradwr gwadd, sef Mr Tom Lloyd – un o ddisgynyddion Teulu'r Lloydiaid o Blas y Bronwydd. Bu'n Gadeirydd 'Tai Hynafol Cymru' am 10 mlynedd, ac yn Ymgynghorydd erbyn hyn gyda'r 'Dreftadaeth Tai'.

Yn 1986 cyhoeddodd lyfr ar "The Lost Houses of Wales".

'Tai Hynafol Ceredigion' oedd dan sylw'r noson hon, a thrwy gyfrwng sleidiau, rhoddodd hanes nifer fawr o hen adeiladau, - o fythynod tloadaidd, sy'n eithriadol o brin erbyn hyn, - i ffermdai sylweddol, ac wrth gwrs y plastai mawr.

Mae'n syndod faint o dai crand sy wedi bod yng Ngheredigion dros y canrifoedd, nifer ohonynt wedi diflannu, a dim ond llun i ddangos beth oedd yno ar un adeg. Yn anffodus, does yna'r un llun o Ffynnonbedr fel ag yr oedd yn ei holl ogoniant.

Gwelwyd sut y codwyd cymaint o gestyll yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr; Cymru o dan rhyw ymrafael bron yn feunyddiol, tra bu Lloegr yn gymharol dawl yn ystod yr Oesoedd Canol. Deddf Hywel Dda wedyn yn rhannu'r eiddo rhwng y meibion, lle byddai'r stadau yn Lloegr yn mynd i'r mab hynaf. Hyn yn arwain at nifer o stadau bach yng Nghymru, a nifer llai, ond stadau mwy yn Lloegr.

Gwelwyd hen luniau o Parc Rhydderch – y tŷ hynaf yn Nyffryn Aeron yn ôl y sôn; Dole bach a Dole uchaf ger Llanybydder; Plas y Wern, Llanarth; Llanllŷr a Llanerchaeron, y tai mawr yng ngogledd y sir, megis Trawsgoed, Gogerddan a Nanteos; Plas y Bronwydd a llawer arall i lawr Dyffryn Teifi. Tynnwyd sylw fel y newidiwyd ochr allanol nifer o'r tai dros y blynyddoedd, ond bod olion o'r tu fewn yn mynd yn ôl i gyfnod llawer cynt.

Bu'r Rhyfel Mawr yn gyfrifol am golli llawer o'r hen dai yma; y meibion yn y fyddin, ayyb. Nifer fawr wedi cael eu lladd, a'r Toll marwolaeth (Death Duty), ynghyd â'r cynnydd yng nghostau byw, yn gyfrifol am drethu nifer o'r stadau allan o fodolaeth.

Diolchwyd yn ddiffuant i Tom Lloyd gan y Cadeirydd, - am noson rhyfeddol, ac am ein harwain o gwmpas hen dai Ceredigion, - a'r holl hanes yn byrlymu o'i enau.

Bydd y cyfarfod nesaf, Nos Fawrth Ebrill 15ed am 7.30 yn yr Hen Neuadd, pan y bydd Jenny Macve yn sôn am "Hafod". Croeso cynnes i bawb.



Cynhaliwyd cyfarfod cangen Llanbed o Ferched Y Wawr yn Festri Shiloh Nos Lun Mawrth 10fed pan ymunodd aelodau o gymdeithasau'r capeli cyfagos â ni. Fe groesawodd Eryl, ein Llywydd, bawb a diolch iddynt am ddod atom i fwynhau arddangosfa o osod blodau gan y Parch Kevin Davies ac estynnodd Eryl groeso mawr iddo yntau hefyd.

Mwynhad mawr oedd croesawu i'n plith ein Llywydd Cenedlaethol Mary Price a oedd wedi teithio i lawr o Fachynlleth er gwaetha'r tywydd garw. Cawsom noson bleserus iawn yng nghwmni'r Parch Kevin Davies gyda'i ddawn arbennig o osod blodau ac fe wnaeth nifer o osodiadau hyfryd i ddathlu'r Pasg gan gyflwyno neges bwrpasol iawn yr un pryd ac ar y diwedd, fe gyflwynwyd y blodau fel raffl ac fe fu deg person llwyddiannus. Cyflwynwyd blodau yn rhodd i Hazel ar achlysur ei phen-blwydd arbennig.

Y gystadleuaeth fisol oedd trefnu blodau mewn cwpan ac fe ddyfarnwyd Gwynfil yn gyntaf a Ray ac Irene yn ail a thrydydd gan y Parch Kevin Davies. Enillydd y raffl fisol oedd Nel Jones.

Diolchwyd yn gynnes iawn i'r Parch Kevin Davies gan Ann Lewis. Gorffennwyd y noson ddiddorol iawn gyda chwpanaid o de a chacennau wedi eu paratoi a'u gweini gydag aelodau'r pwyllgor.

Y mis nesaf disgwyliwn Bethan Gwanas i'n diddori ac y mae croeso i aelodau o gymdeithasau'r dre i ymuno â ni eto ynghyd ag aelodau o Glybiau Gwawr yr ardal ac edrychwn ymlaen at noson ddifyr iawn arall.

Dathlu a Gwellhad Buan

Dathlodd John Green, Nantgwyn, Heol Llanfair ei ben-blwydd yn 60 oed yn ystod y mis aeth heibio. Hefyd, gobeithio fod John yn teimlo'n well ar ôl iddo dreulio rhai dyddiau yn Ysbyty Glangwili dros y Pasg.

Diolch

Dymuniad Beryl Davies, Aweldeg yw diolch yn ddiffuant iawn i BAWB am y pentwr cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ystod y mis. Hefyd dymuna ddiolch i David, Helen a'r teulu i gyd am drefnu penwythnos i'w chofio iddi er mwyn dathlu'r achlysur.

Hysbyseb

Llais cryf dros Lanbedr Pont Steffan

HARRIS HAG

X

Hysbyswyd gan: R. O. Harris, 1 Ty Hen Uchaf, Llanbedr Pont Steffan

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Sarn Helen



Dechrau mis Mawrth cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol y clwb, gan ddewis swyddogion newydd.

Llywydd Alan Watts, Cadeirydd Richard Marks, Ysgrifennyddes Dawn Kenwright, Trysorydd Sue Jenkins, Swyddog darpariaeth Lyn Rees, Capten Mark Dunscombe, Ar y we Wayne Williams, Swyddog y wasg Caryl Davies.

Yn ystod y mis by David Thomas yn cystadlu yn y Barry, ac yn rhedeg 40 o filltiroedd ar drac, ac yn gorffen yn safle 16ed mewn 5 awr a 58 munud.

Aeth pump aelod o'r clwb i Rhayadr, ras rhewl 20 o filltiroedd. Daeth Glyn Price yn 9fed, Carwyn Thomas 15, Huw Price 46, Murry Kisbee 65, a Mark Dunscombe 109. Cafodd y clwb ail mewn tîm.

Dydd Sul y Pasg Sarn Helen oedd yn cyflwyno ras Teifi 10, a pencampwriaeth Cymru. Cafodd y ras eu noddi gan Lomax, Llambled a Dŵr Llanllyr, Talsarn. Roedd 135 o rhedwyr, a'r cyntaf nôl oedd Richard Gardiner o Gaerdydd ac yn torri y record mewn amser 51 munud a 75 eiliadau.

Canlyniadau Ras Teifi 10

Dynion agored 1af Richard Gardiner Caerdydd A.C. 51m a 47e, 2fed Steven Rees Port Talbot 54m a 54e, 3ydd Michael Kallenburg Ingli Runners 58m a 23e. Dynion 40 1af Lee Ahern Les Croupier 54m 32e, 2fed Peter Coles Pontypridd Roadents 55m 2 e, a 3ydd Paul Griffiths Neath 55m 21e.

Dynion 50 1af Nick McGeoch Les Croupier 60m 51e, 2fed Richard Marks Sarn Helen 63m 58e, 3ydd Barry Wilson Ludlow Runners 64m 18e.

Phoebe Webster U.W.A. Harriers enillodd menywod agored mewn amser 63m 17e, gyda Ruth Taylor o Les Croupiers yn ail 65m a 39e a 3ydd Catherine Beecher 68m 02e.

Ann Thomas o Trots yn gyntaf yn y ras menywod 35. 62m 40e, 2il Dinah Cheverton Torbay 64m.39e a 3ydd Shan Roberts o Ingli Runners 65 m a 46 e. Menywod 45 1af Lynn Green Ingli Runners 69m a 46e, 2il Carolyn Eynon Trots 72m 57e a 3ydd Mandy Jones Islwyn 75m a 03e. Sarn Helen enillodd y tîm dynion, Glyn Price, Michael Davies, Andrew Abbott a Richard Marks, a'r tîm merched yn mynd i Ingli Runners, Shan Roberts, Tasha Sexton, Lynn Green Angela Payne.

Canlyniadau Pencampwriaeth Cymru. Enillodd rhedwyr Sarn Helen 16 o fedalau yn y pencampwriaeth, Huw Rowcliff yn ennill medal Arian, o dan ddynion 23, Andrew Abbot Aur Vet 35, Glyn Price Efydd Vet 40, Vet 55 Richard Marks Aur a Allan Watts yn ennill y fedal Aur i ddynion dros 75. Enillodd tim dynion fedal Aur - Glyn Price, Andrew Abbot, Richard Marks a Carwyn Thomas, a'r dynion Vet hefyd yn ennill medal Aur - Glyn Price Richard Marks a Andrew Abbot. Caryl Davies yn ennill medal Aur i ferched dan 23, a'r tim menywod yn ennill medal Aur - Caroline John, Caryl Davies a Gudrun Jones

Dydd Llun y Pasg aeth Glyn Price a Huw Price i Gaerfyrddin i Ras y Maer, Glyn yn cael ras dda ac yn gorffen yn yr ail safle mewn amser 17munud a 25 eiliad, a Huw yn gorffen mewn 19munud a 5eiliad.

Prifysgol Bangor

Cynhelir aduniad i gyn-fyfyrrwyr y brifysgol ym Mhabell y Brifysgol ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Caerdydd 2008 ar ddydd Mercher 6ed o Awst rhwng 2:00 - 4:00y.p

Rhifyn mis Mai

Yn y Siopau
Mai 1af

Erthyglau i law erbyn
Ebrill 18fed
Newyddion i law erbyn
Ebrill 21ain



Tîm Clonc a fu'n cystadlu yn Eisteddfod Papurau Bro yn ddiweddar.

Do, cawsom Eisteddfodau o safon uchel iawn yn ystod y mis. Bu ardal Llambled yn llwyddiannus iawn. Gwelir y canlyniadau isod. Pob lwc i chi gyd sydd yn cynrychioli Cylch Llambled yn Sir Conwy ar ddiwedd mis Mai.

Cystadleuaeth Coginio'r Urdd

Yn newydd eleni roedd yna gystadleuaeth Coginio i aelodau'r Urdd. Dim ond Ysgol Gynradd Llanwnnen wnaeth gystadlu yng Nghylch Llambled. Bydd y cyntaf a'r ail sef Ffion Jenkins a Kate Jones yn mynd ymlaen i'r ail rownd yn Ysgol Dyffryn Teifi ar ddydd Mawrth, 15fed o Ebrill.

Canlyniadau Celf, Dylunio a Thechnoleg - Cylch Llambled

Gwaith Creadigol 3D Bl. 3 a 4 - 2il Ryan Holmes, Ysgol Gynradd Llanwnnen; **Gwaith Creadigol 3D Cywaith Bl.2 ac iau** - 2il a 3ydd Grwp Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; **Gwaith Creadigol 3D Cywaith Bl. 5 a 6** - 3ydd Meinir a Luned, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; **Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 2 ac iau** - 1af Elin Davies, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; **Pyped Bl. 2 ac iau** - 3ydd Madeline Smith, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; **Pyped Bl. 3 a 4** - 2il Sophie Herron, Ysgol Gynradd Llanwnnen; **Pypedau Cywaith Bl. 5 a 6** - 3ydd David, Rhodri, Arwel a David, Ysgol Gynradd Cwrtnewydd; **Gwehyddu (Cywaith) Bl. 3 a 4** - 1af a 3ydd Grwp Bl. 3 a 4 Ysgol Gynradd Llanwnnen; **Print Du a Gwyn Bl. 2 ac iau** - 1af Gwenllian Jenkins, Ysgol Gynradd Llanwnnen; **Print Lliw Bl. 3 a 4** - 2il Ffion Jenkins, Ysgol Gynradd Llanwnnen; **Gemwaith Bl. 3 a 4** - 1af Ellen Jones, Ysgol Gynradd Llanwnnen; 2il Sophie Herron, Ysgol Gynradd Llanwnnen; **Dylunio a Thechnoleg Bl. 3 a 4** 1af Carie-Ann Collhum, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; 2il Meirion Thomas, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; **Dylunio a Thechnoleg Bl. 5 a 6** - 3ydd Caitlin Page, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr; **Gwaith Lluniadu 2D Bl. 7 ac 8** - 1af Carwyn Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; **Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 7 ac 8** - 1af Carwyn Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; **Print Lliw Bl. 7, 8 a 9** - 2il Carwen Richards, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; **Dylunio a Thechnoleg Bl. 7 ac 8** - 1af Meleri Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 2il Ruth Nansi Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; **Dylunio a Thechnoleg Bl. 9** - 1af Cerys Roberts, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan; 2il Natalie Jones, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan; 3ydd Christina Davies, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan; **Creu Arteffact Bl. 7 ac 8** - 1af Llion Thomas, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 2il Tomos Williams, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan; **Creu Arteffact Bl. 12 a 13** - 1af Steffan Jones, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; **CAD Bl. 7-9** - 1af Emma Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 2il Lauren James, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan; 3ydd Cari Lake, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan.

Eisteddfod

Unawd Bl. 3 a 4 - Mared Owen, Ysgol Carreg Hirfaen 1af; **Unawd Bl. 5 a 6** - Lowri Elen, Adran Llambled 1af; **Parti Adran** - Adran Llambled 1af; **Parti Unsain (dros 50 o blant)** - Ysgol Ffynnonbedr - 3ydd; **Côr (hyd at 150 o blant)** - Ysgol Carreg Hirfaen 3ydd; **Cyflwyno Alaw Werin** - Meirion Thomas, Adran Llambled 3ydd; **Unawd Cerdd Dant Bl. 2 ac iau** - Elin Davies, Ysgol Cwrtnewydd 3ydd; **Unawd Cerdd Dant Bl. 3 a 4** - Meirion Thomas, Adran Llambled 2il; **Llefaru Unigol Bl. 5 a 6** - Lowri Elen, Adran Llambled 1af; **Grŵp Llefaru Adran** - Adran Llambled 1af; **Ymgom Bl. 6 ac iau** - Ysgol Cwrtnewydd 3ydd; **Dawns Cyfrwng Cymysg Bl. 6 ac iau** - Ysgol Cwrtnewydd 2il; **Dawns Disgo Bl. 6 ac iau** - Kieran Dalton, Ffynnonbedr 1af; **Grŵp Dawnsio Disgo Bl. 6 ac iau** - Ysgol Ffynnonbedr 2il; **Llefaru Unigol i Ddysgwyr Bl. 3 a 4** - Kaydee Evans, Ysgol Ffynnonbedr 3ydd; **Grŵp Llefaru i Ddysgwyr** - Ysgol Ffynnonbedr 3ydd; **Unawd Merched Bl. 7 - 9** - Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambled 3ydd; **Unawd Bechgyn Bl. 7 - 9** - Aron Dafydd, Aelwyd Llambled 1af; **Unawd Bechgyn Bl. 10 - 13** - Aled Wyn Thomas, Aelwyd Llambled 2il; **Unawd 19 - 25 oed** - Einir Ryder, Aelwyd Llambled 3ydd; **Unawd Sioe Gerdd 19 - 25 oed** - Einir Ryder, Aelwyd Llambled - 3ydd; **Cyflwyno Alaw Werin Bl. 7 - 9** - Dewi Uridge, Aelwyd Llambled 3ydd; **Unawd Chwythbrennau Bl. 7 - 9** - Amy Roberts, Ysgol Gyfun Llambled 3ydd; **Unawd Llinynnol Bl. 7 - 9** - Llion Thomas, Aelwyd Llambled 3ydd; **Unawd Cerdd Dant Bl. 7 - 9** - Gwawr Hatcher, Aelwyd Llambled 3ydd; **Unawd Unawd Cerdd Dant Bl. 10 - 13** - Elliw Dafydd, Aelwyd Llambled 1af; **Llefaru Unigol Bl. 7 - 9** - Aron Dafydd, Aelwyd Llambled 1af; **Grŵp Llefaru Bl. 9 ac iau (Adran)** - Adran Llambled 1af; **Grŵp Llefaru Bl. 7 - 9** - Ysgol Gyfun Llambled 2il; **Llefaru Unigol Bl. 10 - 13** - Elliw Dafydd, Aelwyd Llambled 2il; **Ymgom Bl. 7-9** - Ysgol Gyfun Llambled 3ydd; **Dawns Disgo Bl. 7 - 9** - Elinor Jones, Ysgol Gyfun Llambled 3ydd; **Grŵp Dawnsio Disgo Bl. 7 - 9** - Ysgol Gyfun Llambled 3ydd; **Grŵp Dawnsio Disgo Bl. 10 - 13** - Ysgol Gyfun Llambled 2il.

Englyn personol am £25!

Mae Pwyllgor Llên Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 gyda chynllun i godi arian trwy gael englyn comisiwn personol gan un o'r beirdd canlynol:

Dic Jones	Tudur Dylan Jones	Gwenallt Llwyd Ifan
Ceri Wyn Jones	Emyr Davies	Eurig Salisbury
Huw Meirion Edwards		Iwan Rhys
Hywel Griffiths		Gareth James

Os ydych am i'r englyn fod yn un ar gyfer achlysur arbennig gellwch nodi beth yw'r achlysur -e.e. Pen blwydd, ymddeoliad, pen blwydd priodas, genedigaeth neu fedydd neu gall fod yn englyn syml i berson.

Os ydych am ddefnyddio'r gwasanaeth gellwch yrru eich manylion (Enw, cyfeiriad/ ar gyfer pwy mae'r englyn/ nodi a yw ar gyfer digwyddiad arbennig ac unrhyw wybodaeth arall allai fod o gymorth i'r englynwr - e.e. enwau teulu, ffrindiau, llefydd i: Meinir Ebbsworth, Brynamllwg, Llanwnnen, Llanbedr Pont Steffan, Ceredigion. neu i

Meinir.b@btopenworld.com gan wneud y siec allan i 'Urdd Gobaith Cymru Eisteddfod Genedlaethol Sir Ceredigion 2010'.

Plwyf Apêl Llanwenog a Llanwnnen - Eisteddfod Ceredigion 2010

Daeth llond capel ynghyd ar nos Sul y Pasg i Gapel y Groes, Llanwnnen i Gymanfa Ganu i godi arian er budd Apêl Plwyf Llanwenog a Llanwnnen i Eisteddfod yr Urdd, Ceredigion 2010. Hwn oedd y digwyddiad cyhoeddus cyntaf roedd y pwyllgor wedi ei drefnu. Croesawyd pawb gan Gadeirydd y Pwyllgor Apêl Cyng Haydn Richards ac yn arwain y canu roedd Carys Griffiths o Gwrtnewydd gyda Ceinwen Roach, Llanwnnen yn cyfeilio wrth yr organ. Cafwyd noson i'w chofio wrth ganu'r emynau ac hefyd wrth wrando ar eitemau'r plant o Ysgolion Cynradd Llanwnnen, Llanwenog a Chwrtnewydd - gwledd i bawb a oedd yn bresennol. Llywydd y noson oedd James Lloyd o Abertawe ond i bobl plwy Llanwenog Jim Llain neu Super Jim i wylwyr S4C. Croesawyd ef gan Elaine Davies, Is-gadeirydd y pwyllgor ac fe gafwyd gan Jim araith arbennig - un a fydd yn aros yn y cof am amser. Trosglwyddodd rhodd ariannol barchus i'r gronfa apêl. Talwyd y diolchiadau yn ddifffuant i bawb am noson dra llwyddiannus gan y Cyng Haydn Richards, ac fe godwyd swm sylweddol i'r gronfa Apêl. Diolch yn fawr i bawb.

CYNHADLEDD CYNGOR SIR CEREDIGION



PWERDAI CEREDIGION

Dyfodol Cymdogaethau Cymraeg Ceredigion

Theatr Felin-fach

Dydd Sadwrn, 10 Mai, 2008

9.30 y bore tan 12.45

(Pryd amser cinio yn rhad ac am ddim)

CEFNOGAETH ARWEINIAD YSBRYDOLIAETH

Dylan Iowerth,
Elin Jones AC,
Gareth Jones,
Euros Lewis,
Bronwen Morgan,
Rhodri Llwyd Morgan,
Actorion Troed-y-rhiw

I SICRHAU EICH LLE...
Cysylltwch â Swyddfa CERED
01545 572356 neu 572358

YMBWERWN!

Silian



Ar ddechrau mis Mawrth, cafodd aelodau Bethel Silian gyfle i gydnabod gwaith Mrs Nesta Harries, ac i ddiolch iddi, am 60 o flynyddoedd wrth yr organ ym Methel. (Roedd hi wedi dechrau chwarae 6 blynedd ynghynt ym Methel Cwm Pedol.) Llwyddodd y swyddogion i drefnu cael penillion gan gymydog da i Nesta, a'u fframio, ac yn y llun fe welwch y deyrnged honno a rhodd fechan yn cael eu cyflwyno iddi. Does dim llawer yn digwydd ym Methel heb fod Nesta ynglyn a'r trefniadau, mae'n ddiwyd ym mhob agwedd o fywyd yr eglwys, fel sy'n hysbys i lawer o ddarllenwyr Clonc - ond doedd hi ddim yn gwybod ymlaen llaw am hyn!

Talwyd teyrngedau uchel i Nesta gan y Gweinidog a Mr Glyn Davies diacon.

I Nesta

Ô Fethel daeth anrhydedd
Am lafur trigain mlynedd,
A llywio'r gân hyd lwybrau'r Saint;
Eu braint oedd dy frwdfrydedd.

Profaist holl barch haeddiannol
Binaclau cenedlaethol.
'Wyt gadarn dyst bob awr o'r dydd
I'th ddiwyll ffydd Gristnogol.

David Lloyd Jones – Mawrth 2008

LLEOL I MI Canolbarth

PAPURAU BRO

NEUADD GOFFA

Mae rhannau o'r rhifyn hwn o CLONC ar safwe Cymru'r Byd y BBC:
www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc

Llanfair Clydogau

Gwellhad Buan

Hoffwn hela dymuniadau gorau am wellhad buan i Jonathon Evans, Llanfair Fawr sydd newydd ddychwelyd adre o'r ysbyty ar ôl caeltriniaeth ar ei goes. Buodd Jonathon yn anlwcus tu hwnt pan dorrodd ei goes yn y munudau ola o gem rybgi yn Llanbed yn ddiweddar. Da oedd clywed wrth ei dad fod Jonathon yn well ond bydd rhaid iddo fod adre o'r gwaith am beth amser eto. Mae Jonathon yn athro Technoleg Gwybdaeth yn Ysgol Greenhill yn Ninbych y Pysgod. Pob hwyl i ti Jonathon.

Croeso

Mae sawl teulu newydd wedi symud i bentref Llanfair yn ddiweddar. Croeso cynnes iddynt i gyd.

Noson Gemau

Ar nos Sadwrn Mawrth 15fed daeth nifer dda o bobol ynghyd i neuadd y pentref er gwaethaf y tywydd glawiog ac oer. Cafwyd noson o gyfeillgarwch tra yn chwarae amryw o gemau. Diolch i bawb a gyfranodd at wneud noswaith lwyddiannus.

Bore Coffi

Cafwyd bore o de a chlonc yn y neuadd ar Sadwrn cyn Sul y Blodau i groesawu llawer o hen ffrindiau a ddaw o bell ac agos i gofio am anwyliad sydd wedi eu claddu yn mynwent y plwyf.

Mis Ebrill

Cofiwch am WIND IN THE WILLOWS ar Ebrill 5ed sy'n cael ei gynnal yn y neuadd. Manylion yn siop y pentref neu gan Paula ar 01570 493206 .

Llanybydder

Diolch

Hoffai Owen Davies, 49 Heol-y-Gaer ddiolch am y cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei benblwydd yn 70 oed. Hefyd am y rhoddion hael tuag at Ymchwil Cancr. Mae'r cyfanswm yn £600. [Gwelwyd llun o Owen yn cyflwyno'r siec yn y rhifyn diwethaf].

Hefyd, dymuna Betty Jones, Ger-y-Nant ddiolch yn ddiffuant i'r canlynol sef i'w theulu am bob gofal a charedigrwydd a dderbyniodd yn ystod yr amser oedd yn sâl; i Janet ac Irene a'r cymdogion yn pentref Tŷ Mawr am eu ymweliadau cyson ac i bawb a ddaeth i ymweld a hi o bell ac agos ar llu o alwadau ffôn a'r rhoddion. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr iawn.

Dymuna Mary Jenkins, Bryn Rhosyn ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur ei phenblwydd yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Daeth y Chwiorydd ynghyd yn y Festri ar brynhawn ddydd Llun, Ionawr 28ain. Croesawodd y gweinidog Mrs Gill Timos ein Gŵr Gwadd sef Mr Silin Thomas, Heol-y-Gaer. Cafwyd prynhawn hwylus yn ei blith. Cyn troi am adref, cafwyd cwpanaid o de a bisgedi a baratowyd gan Ogwen Evans, Edith Davies a Eluned Evans. Gwnaethpwyd y diolchiadau gan ein Gweinidog.

Penblwydd

Yn ystod y mis dathlodd Dewi Davies, Coed-y-Glyn ei benblwydd yn 70 oed. Pob dymuniad da i chi am flynyddoedd eto.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â John Jones, Penrhyn, Bro Duar a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam a mamgu annwyl iawn.

Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Alison Thomas, Tawelan ar achlysur ei dyweddïad ar ddydd Gŵyl Dewi â Dean Reader. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Côr Lleisiau'r Werin

Mae wedi bod yn gyfnod eitha' prysur ar aelodau'r Côr yn ddiweddar. Dros gyfnod y Nadolig daeth gwahoddiadau i gymeryd rhan mewn cyngherddau a gwasanaethau yn Eglwys Llanwnnen, Neuadd Brofana, Ffarmers, ac yna yng Ngwasanaeth Merched y Wawr yn yr Eglwys yn Llanybydder.

Yn ystod Mis Mawrth, adloniant ar gyfer Dathlu Gŵyl Ddewi oedd y galw, a chawsom groeso yn ôl i Lanwnnen, y tro yma i westy'r Grannell. Ychydig ddiwrnodau'n hwyrach talwyd ymweliad â Chapel Elim, Ffynnonddrain, Caerfyrddin, a chael croeso mawr yno hefyd. Fel arfer, Edith Williams, Derwenlas, sy'n cyflwyno caneuon y Côr i'r gynulleidfa, ond yn ei habsenoldeb, camodd Mary Thomas, Ffosfald i'r adwy.

Gwyneth Davies, Llys Enwyn yw Cyfeilyddes Côr Lleisiau'r Werin, ond ry'n ni'n ffodus fod Margaret Jones, Llanbed yn aelod o'r Côr, ac mae'n barod iawn i lenwi'r bwlch pan fo angen. Rydym yn cwrdd bob nos iau i ymarfer o dan gyfarwyddyd Elonwy Davies, - yn Festri Aberduar, - neu yn achlysurol yn Neuadd yr Eglwys, Llanybydder. Mae nifer o wynebaw newydd wedi ymuno â ni yn ddiweddar, ac mae yna groeso cynnes i unrhyw un ymuno eto – (merched a gwagedd wrth gwsr!!)

Rydym yn edrych ymlaen yn awr at y Gyngerdd yn Neuadd yr Eglwys, Llanybydder ar y 18fed o Ebrill, ac eto i fod yn Noson Goffi'r Henoed yn y pentre ar y 9fed o Fai. Braf yw gallu fod o gymorth i'n hardal wledig.

Mae gwahoddiad wedi dod eisioes i Gôr Lleisiau'r Werin berfformio ar Faes yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Awst, a byddwn yno ar y dydd Mercher, sef y 6ed, am 1 o'r gloch.



Emlyn Evans Caernarfon (Dolydd) gyda'r Parch Jill Tomos ei fam Mair, swyddogion Ogwen Evans a Hannilia Court ar ol iddo agor arwethiant flynyddol Cymdeithas y Chwiorydd Aberduar yn ddiweddar. Bu yr arwerthiant yn lwyddiant mawr eleni eto. Diolch i Emlyn ac am y gefnogaeth gan lu o bobl o ardal eang.

Cadwyn Cyfrinachau



Enw: Laura Davies

Oed: 23 oed

Pentref: Pentrebach

Gwaith: Cynorthwyydd Cyllid i Hybu Cig Cymru

Partner: Alun Davies

Teulu: Males (Dad), Anne (Mam), Hadi a Sian (Chworiydd)

Unrhyw hoff atgof plentyndod.

Chwarae yn yr afon 'da fy chworiydd a nghyfnitheroedd.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.

Alvin and the Chipmunks!

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.

Pan gwmpes mewn i bwl llong brithyllod tra ar wyliau gyda Mamgu a Tadcu.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.

Dim derbyn dim nonsens wrth fy chwaer hŷn!

Y CD cyntaf a brynest di erioed?

Kylie Minogue.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?

Adre.

Beth yw dy lysenw?

Lauz.

Pwy yw dy arwr?

Kelly Holmes.

Y peth gorau am yr ardal hon?

Pawb yn nabod pawb!

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?

Pawb yn gwbod busnes pawb!

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?

Bwps ar yr hewl.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?

Prynu Mini Cooper!



Beth sy'n codi ofn arnat?

Statement Banc.

Unrhyw ofergoelion?

Dim agor ymbarél tu fewn!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?

Mae'n gyfrinach!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?

Chwarae hoci a mynd i'r Gamfa.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?

Prynu DBX (sef y car).

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.

Pan fu farw'r DBX!

Disgrifia dy hun mewn tri gair.

Merch ffein iawn!

Beth yw dy hoff adeilad?

Stadiwm y Mileniwm.

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?

Mike Phillips.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?

Chinese.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?

OK Magazine!

Beth yw dy hoff arogl?

Bara Ffres!

Sut wyt ti'n ymlacio?

Traed lan o flaen y bocs!

Gwefan poblogaidd.

www.facebook.com

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?

Bysedd traed.

Beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?

Polly y gath a Bob y ci.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?

Eirafyrddio!

Beth sy'n rhoi egni i ti?

Bwyd.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?

Llwyddo.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?

Stereophonics – A Thousand Trees.

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?

Oes!

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?

Chwilio am waith arall!

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?

Esgidiau.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?

Iechyd.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?

Dad.

Y gwyliau gorau?

Key Camp, Ffrainc '95!

Arferion gwael?

Cnoi gwynedd.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?

Yma o hyd.

Testun cyfrinachau'r rhifyn nesaf:

Aled Thomas, Cwmann

Clonc yn ail yn Eisteddfod y Papurau Bro



Cynhaliwyd Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro yng Ngwesty Llanina Llanarth Nos Iau 20fed Mawrth. Aeth llond bws o bapur bro Clonc yno i gystadlu a mwynhau.

Trefnwyd y noson gan swyddogion Brosiect Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro a daeth sawl papur bro ynghyd i gystadlu.

Arweinydd y noson oedd y diddanwr Ifan Gruffydd Tregaron a'r beirniad oedd Dewi Pws, ac fel gallwch ddychmygu roedd hi'n noson o hwyl.

Dyma'r canlyniadau o safbwynt Clonc.

Dyfarnwyd y wobwr gyntaf am ddweud stori gelwydd i Eifion Davies, Drefach a chafodd Guto Gwilym, Cwmann drydydd am ddarllen darn heb ei atalnodi. Yn yr adran lenyddol enillodd Dylan Lewis, Cwmann y wobwr gyntaf am baratoi 5 dihareb gyfoes:



Gwell awr mewn ffwrn na dwy mewn microdon.

Gorau clecs papur bro.

Cadw hwfyr a sgubo ei hunan.

Tecach siarad na thecstio.

Nid aur a geir ar e-bay.

Cafodd Dylan y wobwr gyntaf am ysgrifennu slogan hysbysebu:

CLONC: Papur bro sionc, gyda sbonc yn y glonc. a'r ail wobwr yn yr un gystadleuaeth:

Honk if yw buy Clonc

Ar ddiwedd y noson, papur bro Llais Aeron aeth a hi gan ennill yr eisteddfod gyda'r nifer uchaf o farciau. Daeth Clonc yn ail.

Darparwyd bwyd i bawb oedd yno. Hoffai swyddogion Clonc longyfarch Llais Aeron am eu buddugoliaeth a diolch i swyddogion y Prosiect am drefnu noson lwyddiannus.

Llanwnnen



Picton Jones, Llanwnnen a dderbyniodd yr MBE gan Dywysog Cymru mewn seremoni ym mhalas Buckingham am ei wasanaeth i fusnes bridio dofednod yng Nghymru.

Pen-blwyddi

Pen-blwydd hapus i Bethan Roberts ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21ain oed yn ddiweddar.

Dathlodd Robert Miles, 3 Bro Llan a Geraint Lloyd, Esgair Inglis eu penblwyddi yn 50 oed ac ar ddechrau mis Ebrill dathlodd Shan Davies, 15 Bro Grannell ei phen-blwydd hithau yn 50 oed. Hefyd i Hayley Thomas, 16 Bro Grannell a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed.

Hefyd, dathlodd Jac Teifi Evans, Maes-yr-awel, Blaencwrt ei ben-blwydd yn 18 oed yn ystod y mis a aeth heibio. Pob dymuniad da i ti Jac i'r dyfodol.

Gobeithio i chi gyd fwynhau eich diwrnodau.

Cartref Newydd

Pob dymuniad da i Bethan a Craig ar eu haelwyd newydd yn Gerallt, Bro Grannell.

Sefydliad y Merched

Yn ôl ei arfer bu aelodau'r gangen yn dathlu Gŵyl Dewi gyda swper Cymraeg yn y Pantri yn Llambled. Cafwyd gwledd o gawl cennin, amrywiaeth o bwdinau ac i orffen cwpanaid o de, pice bach a bara brith. Diolchodd y Llywydd, Mrs Gwen Davies i Mrs Delyth Jones am ei chroeso cynnes ac am y swper blasus ac hefyd i Mrs Ceinwen Roach a Mrs Mary Davies am drefnu'r noson. Cafwyd cyfarfod byr i ddilyn cyn troi am adre. Enillwyd y gystadlaeth am Letwad Bren gan Mrs Doeis Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf yng ngwesty'r Grannell ar nos Lun 7fed Ebrill gyda Mrs Angela Roberts yn sôn am ei gwaith fel radiologist.

Gwyddau'r Gwanwyn

Dyma lun o wyddau gwyllt ar lyn Tyncelyn, eiddo Mr Gwilym Davies, Llys Aeron. Mae'r llyn newydd ei adnewyddu'n ddiweddar.

Ysgol Llanwnnen

Cynhaliwyd Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Neuadd Ysgol Gyfun

Llambled. Cafodd Ysgol Llanwnnen dipyn o lwyddiant eleni: Llefaru Bl. 2 ac Iau - Gwenllian Jenkins, 2il, Llefaru Bl. 3 a 4 - Twm Ebbsworth 2il, Llefaru Bl. 5 a 6 - Emma Newton-Jones 2il a Kate Jones 3ydd, Unawd Alaw Werin - Rhian Griffiths 2il, Parti Unsain 1af

Parti Llefaru 1af.

Fe aeth y ddau barti ymlaen i'r Eisteddfod Rhanbarth ym Mhontrhydfendigaid ond ni chafwyd llwyddiant yno.

Yn un o gystadlaethau newydd Eisteddfod yr Urdd eleni oedd y 'Coginio' ac mae Ysgol Llanwnnen yn un o 8 ysgolion Ceredigion sydd wedi cymryd rhan ynddo. Ar fore dydd Gwener, Mawrth 7fed daeth disgyblion blwyddyn 4 a 6 i mewn i'r ysgol gyda'i holl offer coginio ag ati er mwyn paratoi 'cwscws'. Bu'r 8 disgybl yn paratoi'n ddiwyd drwy'r awr a hanner oedd ganddynt. Ein beirniad oedd Mrs Caryl Rosser o Frynteg., Llanwenog. Yn fuddugol oedd Ffion Jenkins, gyda Kate Jones yn ail a Hannah Cooper yn drydydd. Bydd Ffion a Kate yn awr yn mynd ymlaen i'r rownd rhanbarth Ceredigion a fydd yn cael ei gynnal yn Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi ar Ebrill 15fed.

Bu disgyblion yr adran Iau gyda disgyblion Cwrtnewydd a Chribyn i lawr mewn Amgueddfa yn Abertawe ar ddydd Iau, Mawrth 13eg. Gwnaeth pawb fwynhau. Diolch i Mr Morlais Davies, Cribyn am drefnu'r diwrnod.

Bu disgyblion yr adran Iau yn cymryd rhan yng nghystadlaethau Draws Gwlad y Cylch ar brynawn dydd Llun, Mawrth 17eg. Bu'r pedair yma yn llwyddiannus i ddod yn y 10 cyntaf a fydd yn cynrychioli'r cylch yn y rownd nesaf yn rhanbarthol yn Llangrannog yn ystod mis Ebrill:

Merched Bl. 3 – Ellen Jones, 8fed, Merched Bl. 4 – Cerian Jenkins, 7fed a Ffion Jenkins, 8fed a Merched Bl. 6 – Rhian Griffiths, 5ed.

Cynhaliwyd taith Gerdded i goffrau'r ysgol ar brynawn

ddydd Sul, 16eg o Fawrth. Cafwyd brynawn da o gerdded.

Ar ddiwedd y tymor yma rydym wedi ffarwelio gyda Mrs Elin Jones, Cwmann sydd wedi bod yn athrawes CPA yn yr ysgol ers dros flwyddyn bellach. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

Bu nifer o ddisgyblion yr adran Iau yn mynychu Clwb Drama yn ystod yr wythnosau diwethaf ac fe gynhaliwyd sioe 'Twm Sion Cati' ar nos Fercher ola'r tymor yn Theatr Felinfach. Braf oedd eu gweld yn perfformio ar lwyfan y Theatr. Da iawn chi gyd am eich gwaith clodwiw.

Ar nos Sul y Pasg, cynhaliwyd Cymanfa Ganu yng Nghapel y Groes, Llanwnnen i godi arian i Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010. Bu disgyblion CA2 yn cymryd rhan ynghyd â disgyblion o ysgolion Llanwenog a Chwrtnewydd. Roedd hon yn noson i'w chofio.

Yn ôl ein harfer mae'r plant wedi bod yn cymryd rhan yn yr adran gyfyngedig yn Eisteddfod Capel y Groes. Cafwyd sawl gwobr eleni eto ac fe enillodd y Parti Llefaru 1af gyda'r Parti Unsain yn ail. Da iawn chi blant am roi o'ch amser i gefnogi'r Eisteddfod leol a chwithau ar eich gwyliau!!!!



Parti Cydadrodd buddugol Eisteddfod Capel y Groes - Ysgol Llanwnnen

Alltyblaca

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Lynwen a David Holmes a'r teulu, Llygaid-yr-Haul a Gary a Lucy Jones a'r teulu, Cae'r Gôg ar golli mam a mamgu annwyl iawn sef Mrs Ann Jones o Lanybydder.

www.clonc.co.uk

Gwefan Newydd
Papur Bro Clonc,
yn llawn lluniau a
gwybodaeth,
cyfle i chi gyfrannu,
a chyn rifynnau Clonc.

Gorsgoch

Diolch

Hoffai Mrs Sally Thomas, Is y Coed ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddi yn dilyn marwolaeth ei brawd Jack.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lauren a Sophie Jones, Awel y Gors a Gwawr Hatcher, Cefn Hafod a oedd yn aelodau o barti Llefaru Aelwyd Llambled a ddaeth i'r brig yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd. Ymalen i Sir Conwy nawr ferched – pob lwc. Llongyfarchiadau hefyd i Elinor Jones, Penlon ar ennill y 3ydd wobwr yng nghystadlaethau y dawnsio disgo unigol yn yr Eisteddfod Rhanbarth i Fl 7, 8 a 9.

Llongyfarchiadau i Gwawr hefyd am dderbyn y 3ydd wobwr yn yr Eisteddfod Rhanbarth am ganu'r unawd, yr Unawd Cerdd Dant a'r ymgom i Fl 7, 8 a 9. Mae Gwawr hefyd wedi ennill nifer o wobrau mewn Eisteddfodau lleol yn ddiweddar. Da iawn ti a dal ati.

Gwellhad

Braf yw gweld Mrs Ray Jones, Hafod yr Wyn adref o'r ysbyty ar ôl damwain yn ddiweddar. Daliwch ati i wella â chryfhau.



Mae Gwesty Cymru yn edrych am unigolion brwdfrydig a thalentog i ymuno â'r tîm llwyddiannus yn y bwyty ger y lli yn Aberystwyth.

STAFF GWEINI

(Llawn Amser)

Profiad blaenorol yn fanteisiol. Gallu sylfaenol i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol.

Ceisiadau drwy C.V. yn unig at:
Gwesty Cymru
19, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth. SY23 2AZ.

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Fe wyddom ni i gyd yn union lle'r ydym ni'n byw ac rydym ni i gyd yn gwybod beth yw enw'r pentref a'r plwyf. Ac fe wyddom ni beth yw enw'r pentref nesaf. Ond faint ohonom ni sydd wedi ystyried beth yw ystyr rhai o'r enwau hynny? Maen nhw i gyd yn enwau pwysig. Dyma'r labeli sy'n gwahaniaethu rhwng gwahanol rannau ein cymdogaeth ni.

Ond mae enwau lleoedd yn fwy na labeli bach cyfleus i'r postmon, oherwydd dyma'r enwau sy'n ein cynrychioli ni yn genedlaethol ac yn rhyngwladol yn y byd mawr tu allan. Enwau lleoedd yw'r unig elfennau ar fap nad oes modd o gwbl eu cynrychioli nhw gan arwydd neu simbol. Heb enw lle, mae'r map yn diffygiol. Mae'r Llywodraeth yn mynnu bod rhif adnabod yn cael ei roi i bob cae ac i bob llain ac i bob cilcyn. Ond dyw hyn yn golygu bod rhaid anwybyddu enwau caeau ac enwau lleoedd sydd yn aml yn ganrifoedd oed.

Mae enwau caeau hefyd yn bwysig. Mae enwau caeau'n cyflwyno hanes sydd heb ei gofnodi mewn geiriau, yn cynrychioli cof y filltir sgwar, yn datgelu mentergarwch a dyfeisgarwch a dirgelion ein milltir sgwar ni dros genedlaethau lawer.

'Milltir sgwar', 'bro', 'cynefin' – dyma'r eirfa sy'n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r lleoedd hynny sy'n rhan ohonom ni, sy'n eiddo i ni ac sydd wedi llywio ein bodolaeth ni. A rhan o'r cyfrifoldeb cyffredinol at gadwriaeth sydd ar bob un ohonom ni yw gofalu am barhad yr enwau hyn a throsglwyddo gwybodaeth am y pethau hyn.

Ond weithiau pan fydd tfl neu ffarm yn newid dwylo, mae'r enw yn cael ei newid hefyd. Mae'n weithred haerllug ac yn ddim byd llai na fandaliaeth pur. Ac mae'n fandaliaeth, rwy'n ofni, sydd ar gynnydd ac yn amlwg drwy'r wlad. Gall bob un ohonom nodi amryw enghreifftiau. Yn anffodus dyw deddf gwlad a all fod mor biwis am rai manion bethau, ddim yn gefn o gwbl yn y pethau hyn.

Treuliais i ran o'm mhlentyndod yn Felinfoel ac roeddwn i'n gyfarwydd â Swiss Valley. Flynyddoedd yn ddiweddarach y des i'n ymwybodol mai gweithred fwriadol oedd disodli'r enw Cwm Lliedi gan Swiss Valley. Dyw'r rheswm dros wneud hynny ddim o bwys bellach; mae'r drwg wedi'i wneud. Ond ystyriwch mewn difrif, beth mae enw fel Swiss Valley yn ei ddynodi yng nghyd-destun cymuned fel Felinfoel, yng nghyd-destun Sir Gaerfyrddin, yng nghyd-destun Cymru, hyd yn oed yng nghyd-destun gwledydd Prydain? A dyw e'n gwella dim o'i gyfieithu, 'Dyffryn y Swistir'! Ond dyna'r enw cloff sy'n cynrychioli'r cwm bach deniadol hwn, bellach, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ar fap y byd. A dylai fod yn rhybudd inni i gyd bod angen y gofal mwyaf wrth ychwanegu at ein henwau lleoedd ni.

Onid yw'n gyfrifoldeb arnom ni i gyd i geisio sicrhau nad rhyw ffurfiau dwl, gwamal fel hyn fydd yn ein cynrychioli ni ac yn cynrychioli'n plant ni yn llygad y byd ac yn ein milltir sgwar ni ein hunain?

Yn ystod y misoedd nesaf bydd cyfle i drafod rhai o enwau lleoedd y fro hon.

O San Steffan gan Mark Williams AS



Yn hwyrach yn yr wythnos hon, byddwn yn cael gwybod sawl un o Swyddfeydd Post Ceredigion bydd yn cau wrth i'r Llywodraeth fynnu parhau â'u cynllun i gau rhyw 2,500 cangen drwy'r wlad. Rydym i gyd yn ymwybodol o'u pwysigrwydd i'n economi a'n rhwydweithiau cymunedol, atgoffais yr Ysgrifennydd Gwladol o'r anghysonderau rhwng Lloegr a Cymru yr wythnos hon. Bydd y cyntaf yn elwa o'r Bil Cymunedau Cynaliadwy, a fydd yn galluogi i bobl leol adlewyrchu ar eu gwasanaethau lleol. Yn y cyfamser mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datgan ei chynlluniau i ail-gychwyn y Gyllideb Datblygu Swyddfeydd Post er mwyn cynnal cangennau lleol. Mae hyn ychydig yn hwyr, ond yn newyddion i'w groesawi serch hynny. Yn anffodus, nid yw'r Gweinidog am newid ei feddwl.

Ar y naill law, mae'r Llywodraeth yn Llundain yn gweithio yn erbyn anghenion cymunedau gwledig fel ninnau. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud yr un peth wrth gyfuno Ymddiriedolaethau GIG. Ond mae dau ddigwyddiad y penwythnos hyn wedi fy argyhoeddi o natur a chryfder bobl y sir hon. Mynychais ddigwyddiad codi arian ar gyfer Uned Cancr Colu-rhefrol yn Ysbyty Bronglais, ynghyd â bron 200 arall, staff, goroeswyr ac aelodau o'r gymuned a fu oll yn codi miloedd o bunnoedd ar gyfer ein ysbyty lleol a'r tîm yno dan arweiniad Dr. Jackson. Ar Ddydd Gŵyl Dewi bu myfyrwr o Aberystwyth yn cymeryd rhan mewn ras gyfnewid am rhyw 24 awr yn rhan o Relay for Life, Ymchwil Cancr y DU. Mae'n siwr i chwi gofio ei bod yn noson oer a diflas, ond aeth y digwyddiad yn ei flaen. Felly, pan fydd ein Llywodraeth yn ein siomi, gallwn bod yn falch o'n cryfder lleol. Ond mae'n rhaid i'r ymgyrch dros ein cymunedau barhau, ac mi fydd yn parhau.

Hoffwn ganmol carfan arall hefyd sef merched y tir a'r corfflu coed. Mae rhyw 70 ohonynt o bob cwr o'r sir wedi ysgrifennu ataf, yn ceisio am wobr bathodyn DEFRA. Bûm yn cyfarfod â llawer o'r rhain yn yr wythnosau diwethaf, maent yn llawn haeddu eu anrhydedd.

Drefach a Llanwenog

Dyweddïad

Dymuniadau gorau i Rhian Bellamy, Hendy ar ei dyweddïad â James, Gwarcwm, Maesycrugiau. Llongyfarchiadau gwresog i chi eich dau.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Alan ag Ann Bellamy, Hendy ar ddod yn ddatcu a mamgu unwaith eto, ganwyd Rhys i Catrin a'i gŵr Glyn yn Llanarth. Brawd bach i Lowri.



Yn y llun gwelir Amy Richardson, Drefach gyda chi ei mamgu a thadcu sef "Cerys" y Corgast Cymreig Sir Benfro a enillodd ei dosbarth yn Crufts eleni. Llongyfarchiadau mawr

Apêl Iestyn i Ambiwylans Awyr Cymru Talgarreg.

Cyfanswm terfynol Apêl Iestyn oedd £26,170.28. Cafodd y siec ei throsglwyddo i'r Ambiwylans Awyr ar ddydd Iau, 13eg o Fawrth 2008 yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth yn ystod taith Ambiwylans Awyr Cymru drwy Gymru.

Mae Garri a Helen Davies a'r teulu am ddiolch o galon eto i bob unigolyn, cwmni a chymdeithas sydd wedi cefnogi'r achos teilwng iawn yma.



GLYN PHILLIPS

Saer Coed ac Asiedydd



Ffôn: 01570 470176
Symudol: 07775 694243

D Aled Evans

Plymwr a
Pheiriannydd Gwresogi



Gosodwr a Chynhaliwr

- Systemau gwresogi
- Baddonau a chawodydd
- Gwresogyddion mewn lloriau
- Gwasanaeth cynnal a gosod boileri a'u hatgyweirio

Ffôn/Ffacs 01267 253230 neu
07966 592 183

T. Emyr Jones

Adeiladwr



Araul, Cwmann

☎ 01570 423921
☎ 07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau lleni, gwasanaeth torri allwedd i pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR

newydd agor yn Llambed



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa
a deunyddiau celf a chrefft
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau
cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau
lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a
phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr,
cynfas a phapur dyfriliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref*

W.D. Lewis a'i Fab

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,
Llanbedr Pont Steffan

*Am holl fwyddau a nwyddau
amaethyddol, cysylltwch â ni.*

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHWYR.
COMISIYNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING


Y gwasanaeth arlwygo cyflawn
ar gyfer bob achlysur:

Priodas; Penblwydd;
Bedydd; Angladd;
Cinio Busnes;

Digwyddiadau Maes,
Bwydlenni unigol i ateb
eich gofynion chi – boed yn
fawr neu'n fach

Cyswilt: Mrs Mair Hatcher
Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UR
☎ 01570 481230 ✉ 07967 559683

Dyfarniad y Darllenydd



Cawr i'r Genedl - Cyfrol i Gyfarch yr Athro Hywel Teifi Edwards

Fel un a fu yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Cymru Abertawe a Hywel Teifi Edwards yn athro'r Gymraeg arna i, rwy'n eithaf nerfus yn adolygu'r gyfrol deyrnged hon iddo. Mae teitl y gyfrol yn dweud y cyfan amdano. Digon naturiol yw bod ag ofn y cawr felly. Ond parchedig ofn sydd gen i tuag ato, yn debyg i lawer arall sydd wedi ei glywed yn siarad ac yn darlithio. Er, yn ôl bob sôn, nid yw ef ei hun yn rhy hoff o deitl y gyfrol.

Gŵyr pawb am ei ddawn o draethu ffraeth ac am ei gefnogaeth di-felwyn ar dafod tuag at y pethau Cymraeg. Roedd yn adloniant pur i ddarllen ei lythyr yn Golwg rhai wythnosau nôl yn ymosod ar sylwadau un o'r colofnwyr. Tafla ambell reg effeithiol yn arddull Aberarth i oglais y gwrandawr neu i gythruddo ambell un pan fod hynny'n deilwng. Mae'n un o'r cewri 'ma y mae'r

Cymry yn ei gyfri o ddifri gan ei fod, yn y pen draw, yn siarad sens.

Un bennod yn unig a neilltuir i'r Athro yn y gyfrol. Pennod a ysgrifennwyd gan Tegwyn Jones amdano, ond ceir cyfoeth o hanes yn y penodau eraill. Ysgrifau llenyddol wedi eu comisiynu gan gyd-ysgolheigion a chyfeillion i Hywel. Nid wyf yn siŵr os ydynt yn apelio at bawb. Rhai yn ddiddorol iawn yn fy marn i ond eraill braidd yn drwm.

Hoffais yn arbennig y bennod am 'Iolo Morgannwg a Chaethwasiaeth' gan Geraint H Jenkins, 'Lingen, Arnold a Palgrave: Tri Sais a'u Hagweddau at Gymru' gan Prys Morgan a 'Tirluniau Dychymyg Gwenallt' gan Christine James.

Olrhain hanes y Llyfrau Gleision a wna Prys Morgan. Testun y clywais Hywel Teifi Edwards yn taranu amdano sawl gwaith. Cyfeiria Prys Morgan at dri chomisiynydd y Llyfrau Gleision 1847 a'r darlun a baentiwyd ganddynt o sefyllfa addysg a bywyd yn gyffredinol yng Nghymru'r cyfnod hwnnw. Un ohonynt oedd Ralph Lingen ac ar ei daith drwy dde Cymru galwodd yn Llanybydder. Cafodd dipyn o sioc yno. Roedd y Sais hwn yn rhyfeddu nad oedd neb yn Llanybydder yn deall gair ohono. Pawb felly yn Gymry Cymraeg uniaith, a heb unrhyw ddealltwriaeth o Saesneg. Sut ymateb a gai o alw yn Llanybydder heddiw?

Cyfrol ddiddorol iawn yn fy marn i. Gallaf ddychmygu fod yr Athro wrth ei fodd â hi. Ond gair o rybudd, nid yw pob cyfrannwr yn y gyfrol yn gallu ei dweud hi gystal â'r Athro ei hun.

Dylan Lewis

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Datgelodd y Post Brenhinol yn ddiweddar eu bod yn bwriadu newid presenoldeb gwasanaeth y Swyddfa Bost yn nifer o'n cymunedau gwledig yng Ngheredigion o fis Gorffennaf ymlaen. O dan y cynlluniau, bydd nifer o bentrefi yn colli eu Swyddfeydd Post parhaol yn llwyr gyda gwasanaethau fan symudol yn cael eu cyflwyno yn eu lle mewn rhai achosion. Mae gwasanaeth y Swyddfa Bost yn rhan hanfodol o'n cymunedau gwledig ac rwy'n siomedig tu hwnt gyda'r cynlluniau i gau cymaint o'n swyddfeydd parhaol yng Ngheredigion. Mewn nifer o bentrefi, mae'r Swyddfa Bost yn rhan o'r siop leol ac fe allai colli'r gwasanaeth post arwain at y siop yn gorfod cau. Dros yr wythnosau nesaf byddaf yn mynychu nifer o gyfarfodydd cyhoeddus ar hyd a lled y sir i frwydro dros ein Swyddfeydd Post.

Un datblygiad ar ein priffyrdd sydd ar fin dod yn realiti yw ffordd osgoi Llandysul. Mae'r cynlluniau yma wedi bod ar y gweill ers nifer o flynyddoedd ac fe gadarnhaodd Llywodraeth y Cynulliad yn ddiweddar bod y cais ar gyfer ariannu'r datblygiad wedi bod yn llwyddiannus. Bydd y gwaith adeiladu'n dechrau'n fuan iawn ac rwy'n gobeithio y bydd y cynlluniau yn hwyluso'r daith o Geredigion i'r M4.

Yn olaf, fel y Gweinidog dros Faterion Gwledig fe gyhoeddais fod mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru i dderbyn grant gwerth £50,000 i'w cynorthwyo gyda'i waith ar draws Cymru. Rwy'n ymwybodol iawn o bwysigrwydd y mudiad yma yng Ngheredigion er mwyn cynnig ystod eang o gyfleon i'n pobl Ifanc ac rwy'n gobeithio y bydd y cyllid yn galluogi'r Ffermwyr Ifanc i ddatblygu ymhellach.



Elin Jones AC yn ymweld a melinlif Llanllwni

Ysgol Cyfun Llanbedr Pont Steffan

Adran y Gymraeg Taith i'r theatr

Nos Iau, Chwefror 21ain, bu Siwan Davies, Lowri Davies, Anwen James ac Alice James o flwyddyn 13, Luned Mair a Hedydd Davies o flwyddyn 12, ynghyd â staff, i Theatr Mwldan, Aberteifi i weld perfformiad Theatr Genedlaethol Cymru o "Y Pair", sef cyfieithiad o "The Crucible", Arthur Miller. Dyma gyfle gwych i weld y ddrama glasurol, rymus hon a mawr a fu'r mwynhâd a'r gwerthfawrogiad o'i gweld.

Llongyfarchion

Llongyfarchiadau i Siwan Davies, bl 13 ar ennill Cwpan Her yng nghystadleuaeth y darn gorau o waith llenyddol bl 10-13 yn Eisteddfod Llanfihangel-ar-arth yn ddiweddar, am stori fer "Caethiwed".

Fideo Gynhadledd

Cymerodd bl 12 Cymraeg ran mewn Fideo Gynhadledd â'r Athro Gerwyn Williams, Adran y Gymraeg, Prifysgol Bangor, ar y 27ain o Chwefror. Dyma brofiad newydd a chyffrous lle'r oedd y disgyblion yn rhannu darlith am T.H. Parry-Williams, Waldo Williams, Gwyn Thomas a Gerallt Lloyd Owen. Cafwyd darlith gynhwysfawr, ddiddorol y bydd y disgyblion yn siwr o elwa ohoni. Diolch i Gerwyn Williams am roi o'i amser a'i arbenigedd.

Chwarter awr o enwogrwydd

Bu Prif Swyddogion yr ysgol - Aled Thomas, Siwan Davies, Richard Milcoy ac Angharad Lewis yn mwynhau chwarter awr o enwogrwydd ar raglen C2, Radio Cymru yn ddiweddar. Roedd yn bleser gwrando arnynt yn cyflwyno'u hoff ganeuon a rhannu'u profiadau.

Apêl Cystic Fibrosis

Yn ddiweddar daeth Mrs Carolyn Hunt i'r ysgol i dderbyn siec am £1,007 ar ran Apêl Cystic Fibrosis. Cyflwynwyd y siec iddi gan ein Prif Swyddogion Aled Thomas, Siwan Davies, Angharad Lewis a Richard Milcoy. Diolch i flwyddyn 12 a 13 am godi'r swm sylweddol yma at gronfa Cystic Fibrosis yn eu 'Snowball' adeg Nadolig.

Yn ogystal â hyn, cyflwynodd Mrs Llinos Bowen o fanc Lloyds siec o £500 tuag at Apêl Cystic Fibrosis, sef hanner y swm a godwyd gan ein disgyblion. Diolch i bawb a gyfrannodd at yr achos yma.

Diddanu'r henoed

Diolch i enillwyr Eisteddfod yr ysgol am ddiddanu henoed cylch Llanybydder yn ystod dathliadau Gŵyl Dewi. Y disgyblion oedd:- Gwawr Hatcher; Sioned Hatcher;

Sophie Jones; Lauren Jones; Dewi Uridge; Aron Dafydd; Elin Jones; Nerys Evans; Philip Chrich; Aled Thomas

Yn ôl dymuniad y disgyblion, cyfranwyd y rhodd am ddiddanu i gronfa Cystic Fibrosis i gofio am Siân Watkins, cyn ddisgybl o'r ysgol.

Y Gornel Alwedigaethol Oakwood! Ysbyty Mynydd Mawr!



Dyma lle mae'r disgyblion sy'n dilyn pynciau galwedigaethol wedi bod yn treulio eu hamser yn ddiweddar.

Bu Bl 13 Iechyd a Gofal yn ymweld ag ysbyty Mynydd Mawr, Y Tymbl er mwyn gweld drostynt eu hunain sut mae'r rhaglenni imiwneiddio a sgrinio yn cael eu gweithredu. Cawsant hefyd y cyfle i holi'r gweithwyr am eu gyrfa. Yn ogystal, bu Hilary Edwards o GIG Cymru yn yr ysgol yn rhoi gwybodaeth i'r criw am yr amrywiaeth o yrfaeoddd sydd i'w cael o fewn y GIG. Bydd y wybodaeth yma ar gael yn llyfrgell yrfaeoddd yr ysgol.

Cafodd Bl 12 Teithio a Thwristiaeth gyflwyniad arbennig o dda yn Oakwood ar 'Wasanaeth Cwsmer'. Bu Mr Richard Drummond (Rheolwr Adnoddau Dynol Oakwood) a'i staff yn barod iawn i ateb cwestiynau'r disgyblion.

Mae disgyblion Bl 12 Busnes newydd gwblhau eu hasesiad ymarferol, lle cawsant eu hasesu ar eu rôl fel y cyfwelydd. Profiad hollol newydd iddynt.

Cynhadledd Gyrfaoedd - Ysgol Llanbed ac Ysgol Tregaron

Cafodd disgyblion Bl 9-13 y cyfle i fynychu Cynhadledd Yrfaoedd a drefnwyd ar y cyd gydag ysgol Tregaron. Roedd yna amrywiaeth o ymgynghorwyr o fyd gwaith, colegau a phrifysgolion yno. Diolch i Ms Iona Jones, ein Swyddog Gyrfaoedd, a swyddogion eraill Gyrfa Cymru, am drefnu'r diwrnod.

Cystadleuaeth Defnyddwyr Ifanc 2008

Bu tîm o ddigybllion bl 11, 'The Orange Lamposts' bron a ennill lle yn rownd derfynol Cymru yn y gystadleuaeth hon. Dim ond 1 pwynt oedd rhyngddynt a'r enillwyr! Blwyddyn nesaf amdani!

Profiad Gwaith Bl 12

Treuliodd nifer o ddigybllion Bl 12 wythnos gyda gwahanol gyflogwyr fel rhan o'u wythnos brofiad gwaith.

Hoffem ddiolch i Yrfa Cymru am eu cymorth ac i'r sefydliadau am eu parodrwydd i dderbyn y disgyblion.

Yr Adran Fathemateg

Cynhaliwyd cystadlaethau'r UK Maths Challenge mis Chwefror. Gwobrwywyd tri ar ddeg o ddisgyblion:-

Llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiant.

Gwobr Aur - Seb Lee; Bl 11
Gwobr Arian - Llŷr Davies Bl 10;
Ben Lake Bl 10; Rowan Evans Bl 9; Amy Richardson Bl 11; Zoltan Kopacs Bl 10; Chris Ashton Bl 11;
Gwobr Efydd - Bethan Duford Bl 11; Siân Jenkins Bl 11; Gemma Evans Bl 10; Aled Wyn Thomas Bl 11; Melanie Thomas Bl 11; Rhian Thomas Bl 11.

Yr Adran Gerdd

Mynychodd y disgyblion canlynol gwrs preswyl yn Llangrannog fel aelodau o'r Band Chwyth a Cherddorfa. Yn dilyn hyn, ar Chwefror 19eg, cynhaliwyd cyngerdd yn Aberystwyth.

Emily Johnston - Obo; Lowri Davies - Clarinet; Tomos Harries - Ffidil; Caroline Roberts - Ffliwt a Victoria Lee - Ffliwt.

Clyweliadau

Bu Mr Emyr Wynne Jones yn yr ysgol ar Fawrth 10fed yn cynnal clyweliadau ar gyfer Côr y Tair Sir.

Ymwelwyr o Ganada

Ymwelodd tîm rygbi o Ganada yr ysgol yn ddiweddar a buont yn chwarae gêm yn erbyn tîm yr ysgol. Enillodd Llanbed o 29 pwynt i 11. Da iawn bois!



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Gwesty'r Grannell

Llanwnnen



Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyio ar gyfer pob
achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.
Cysylltwch â Susan neu Siroi!
☎ 01570 480476



Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Migraines
- * Sciatica
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFiant,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.

**Arnold Davies
Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Ffarmers

Parc Bro Fana

Dros adeg y Nadolig, bu nifer o drigolion ardaloedd Ffarmers a Llanyerwys yn canu Carolau i godi arian at Gronfa Parc Bro Fana. 'Roedd y gweithgareddau o dan oruwchwyliath Miss Lowri Davies a chasglwyd cyfanswm o dros £780. Dyma rai o'r cantorion yn derbyn siec oddi wrth Lowri fel rhan o'r cynllun punt-am-bunt a noddwyd gan Fanc Barclays. Diolchwn am y cyfraniad hael at yr achos.

Cwmni Cudyll Coch

Bydd Cwmni Cudyll Coch o Landeilo yn ymweld a'r Neuadd eleni eto ar y 12fed o Ebrill pryd y byddant yn perfformio dwy gomedï – 'Iechyd Da' gan David Jones a 'Gweld Sêr' gan Peter Hughes Griffiths. Llywydd y noson fydd Mr J.H. Davies M.B.E., Glantwrch, Pumsaint – un sydd yn rhoi cefnogaeth brwd i holl weithgareddau'r gymuned, ac sydd wedi rhoi gwasanaeth fel cynghorwr bro yn yr ardal yma am flynyddoedd. Estynnir croeso cynnes i chi ymuno a ni – bydd y noson yn cychwyn am 7.30 y.h.

Noson Caws a Gwin

Cynhelir Noson Caws a Gwin yn y Neuadd ar nos Wener y 23ain o Fai am 8.00 o'r gloch. Yn ogystal a chael mwynhau gwydred neu ddau o win, bydd yna hefyd gyfle i flasgu amrywiaeth o gaws, ac mi fydd Mr Maugan Trethowan o gwmni 'Caws Gorwydd' Llanddewi Brefi yn ymuno a ni i sôn am y broses o wneud caws. Mae'r cwmni yma yn cynhyrchu Caws Caerffili sydd yn hynod boblogaidd, ac yn cael ei ddosbarthu yn eang, a'u allforio. Bydd yna hefyd arbenigwr ar winoedd yn ymuno a ni i rannu rhai o gyfrinachau y diwydiant gwinoedd. Dyma gyfle i chi fwynhau a dysgu ar yr un pryd. Mae croeso i chi ymuno a ni.

BBC Radio Cymru

Bydd BBC Radio Cymru yn darlledu rhaglen foreol 'Jonsi' o Neuadd Bro Fana ar ddydd Gwener, y 18fed o Ebrill rhwng 8.30 a 10.30 y bore. Estynnir croeso cynnes i ddarlennwyr Y Lloffwr i droi mewn yn ystod y bore.

Cymanfa Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed

Cynhelir y Gymanfa Flynyddol eleni ym Methel, Cwm Pedol ar y 18fed o Fai gydag oedfa'r plant am 2.30 y.p. ac oedfa'r oedolion am 6.00 y.h. Yr arweinydd eleni fydd Mrs Carys Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann. Darperir lluniaeth yn Ffestri'r Capel rhwng y ddwy oedfa, ac estynnir gwahoddiad cynnes i gyfeillion ymuno a ni. Defnyddir rhaglen y Cymanfaoedd Canu Cyd-enwadol.

Llangybi



Aelodau C. Ff. I. Bro'r Dderi yn eu cinio blynyddol yn nhafarn Cefnhafod, Gorsgoch yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Miss Eirwen Evans, Cottage, Betws Bledrws ar farwolaeth ei chwaer Iris ychydig amser yn ôl. Hefyd gyda theulu Tegfan, Llangybi ar farwolaeth chwaer a chwaer yng

ngyfraith. Rydym yn ystod yr wythnos ddiwethaf yma wedi colli un aelod arall o'r gymuned sef Mrs. Doreen Pinkstone, 2 Cae'r Ffynnon, Llangybi. Fe fu'r teulu yma yn cadw'r siop yn Llangybi am flynyddoedd lawer a Doreen yn

aelod ffyddlon yn Ebenezer.

Gwobr Clod Ceredigion

Llongyfarchiadau i Mrs Mair Spate, Maesyffynnon, Llangybi am ennill gwobr Clod Ceredigion am y flwyddyn 2007. Gallaf sicrhau bod Mair yn llawn haeddu'r wobwr yma.

Pentrebach

Diolch

Dymuna Mr Eric Jones, Pant-têg, Pentrebach, ddiolch am y llu o gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a gafodd tra yn Ysbyty Treforys yn ystod y misoedd diwethaf. ac hefyd ar ôl dychwelyd adref. Dymuna'r teulu ddiolch am bob arwydd o gefnogaeth ac yn arbennig i'r ddwy nyrs leol, sef Ann Davies a Joy Williams.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd hapus i Joy Williams, Derwendeg a ddathlodd penblwydd arbennig yn ddiweddar ac hefyd i Mrs Hazel Davies, Frondolau ar ddathlu penblwydd arbennig iawn yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r ddwy ohonoch i'r dyfodol.

Grand Slam!

Braf oedd gweld Deiniol Jones, sef mab yng nghyfraith Mr a Mrs Eric Jones Pant-têg yn chwarae dros ei wlad yn ystod pencampwriaeth rygbi y chwech gwlad yn ddiweddar, ac yn camu i'r llwyfan fel rhan o'r garfan i dderbyn ei fedal aur gan iddynt ennill y pencampwriaeth a'r Grand Slam!. Pob lwc i'r dyfodol.

Ydych chi erioed wedi meddwl am agor garej, cael busnes DIY eich hun, neu gynnig gwasanaeth?



Oes gennych chi syniad, ond ddim yn siwr beth i'w wneud amdano?

Oes angen cymorth arnoch i ddatblygu eich syniadau?

Rydym yn cynnig:

Gwybodaeth am hyfforddiant a chyllido
Trafodaethau un-i-un a chysiau di-dâl
Cymorth gyda chostau gofal plant
Gwasanaeth sy'n cwrdd ag anghenion yr unigolyn
Cefnogaeth i ddatblygu hunangyflogaeth a'ch syniadau busnes chi
Cymorth i ddatblygu cynllun gwaith i gyrraedd eich nodau
Canllawiau ar gydbwysedd gwaith a bywyd
Awyrgylch gyfeillgar ac anffurfiol

Cynigir gwasanaeth cefnogi a gwybodaeth cyn-busnes di-dâl a gaiff ei ddarparu i gwrdd ag anghenion y cleient.

**Am fwy o fanylion cysylltwch â
Jane Pugh, Antur Teifi 01239 621828**



Yn y Gegin gyda Gareth



‘Paratoi prydiau gyda dim ond pump o gynhwysion’.

Paratoi prydiau hawdd iawn, ond blasus yw'r nôd y mis yma. Gellwch eu paratoi mewn byr amser gan ddefnyddio cynhwysion bob dydd. Rhwch dro ar y canlynol a chofiwch nad oes llawer o olchi llestri ar ôl paratoi'r cyfan.

Hwyl,

Gareth.

Cyw iâr mewn crwst creision.

Cynhwysion

- 2 daten wedi'u torri'n gylchoedd tenau.
- 2 llond llwy fwrdd o ketchup neu puree tomato.
- 2 frest cyw iâr.
- 1 pecyn o greision yn cynnwys halen.
- 2 llond llwy fwrdd o olew.

Dull

- Gorchuddiwrch y tatws mewn olew a'u rhoi yn un haen ar dun pobi. Coginiwch am 20 munud ar 180°C.
- Gorchuddiwrch y cyw iâr â'r ketchup. Yna gwasgwch y creision dros y cyw iâr fel y bônt yn glynu wrth y cig.
- Ffreiwrch y cig mewn olew am 5 munud ar bob ochr nes bod y cyfan yn grisp.
- Gweinwch gyda'r tatw a salad.

Cig Oen gyda 'Chilli' a 'Couscous'.

Cynhwysion

- 2 llond llwy de o bâst chilli.
- 2 stecen coes oen.
- 5 owns o 'couscous'.
- 1 owns o almwn wedi'u rhostio
- 2 owns o reisins

Dull

- Whisgiwch y past 'chilli' gyda 3 llond llwy fwrdd o olew'r olewydd, pupur a halen.
- Sgeintiwrch (drizzle) tua 1 llond llwy fwrdd dros bob ochr i'r cig a rhwbiwrch i mewn yn gyson.
- Twymwch y gril a choginiwch y cig am 3 - 4 munud bob ochr, nes bod lliw euraidd arnynt.
- Yn y cyfamser rhwch y 'couscous', almwn a'r reisins mewn basn gyda ½ pint o stoc twym. Gorchuddiwrch â phlat a gadewch i aros am 5 munud.
- Cymysgwch gyda fforc ac ychwanegwch y gweddill o'r olew 'chilli'. Gweinwch gyda'r cig oen.

'Reis Neis!'

Cynhwysion.

- 9 owns o reis 'basmati'.
- 14 owns o lysiau cymysg wedi'u rhewi.
- Llond dwrn o reisins.
- 1 stoc ciwb (llysieuol).
- 2 llond llwy fwrdd o bâst cyri.

Dull

- Rhwch y reis, y lysiau a'r reisin mewn basn meicrodon, ychwanegwch 1 pint o ddŵr berwedig, y ciwb stoc a'r pâst cyri.
- Gorchuddiwrch y basn â 'clingfilm' a thorwch dyllau mân ynddo.
- Coginiwch ar bŵer llawn (850 wats) am 12 munud. Os yw'ch meicrodon yn llai pwerus, rhwch ddwy funud yn ychwanegol i'r meicrodon. Gadewch i aros am bum munud. Cymysgwch â fforc a gweinwch gyda chnau pŷs, (peanuts).



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon

MiS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Twyll y swyddfeydd post

Yn anffodus, ddaeth y ddrama Y Pair ddim i Theatr Felin-fach – un o benderfyniadau gwael y blynyddoedd diwetha' ydi'r ffaith fod cynlluniau i ddatblygu'r ganolfan honno wedi eu gwrthod.

Hi ydi un o'r ychydig theatrau sydd wirioneddol yn rhan o'i chymuned ac, ar y radio y diwrnod o'r blaen, roedd rhai o hen weithwyr Cwmni Theatr Cymru'n sôn am y croeso cynnes a'r cynulleidfaoedd da oedd yno.

Ond, bellach, dim ond i lond llaw o theatrau mawr y mae'r prif gynhyrchiadau'n mynd ac mi fyddai'n rhaid i bobl ardal Clonc fod wedi teithio 20 milltir a mwy i weld y cyfieithiad newydd o ddrama fawr Arthur Miller.

Mae'n sôn am bethau a ddigwyddodd 300 mlynedd yn ôl yn America ond mae'n wir i bob oes ac i bob man. A, choeliwrch neu beidio, mae hyn yn oed yn berthnasol i'r bygythiad i gau swyddfeydd post yng nghefn gwlad Ceredigion.

Yn y ddrama, mae criw o ferched yn cael eu hamau o fod yn wrachod ac maen nhw wedyn yn dechrau cyhuddo llawer iawn o bobl eraill ddiniwed, gan ddweud eu bod nhw'n helpu'r diafol.

Ambell dro, mae pobol gwirioneddol Gristnogol a da yn cael eu llusgo o flaen y llys. "Maen nhw'n bobl dda," meddai eu cefnogwyr. Ond, yn ôl y llys, roedd hynny'n dangos pa mor gyfrwys yw'r diafol.

Roedd hynna'n atgoffa dyn o'r chwilio am yr arfau dinistriol yn Irac bum mlynedd ôl. Bryd hynny, yn ôl Bush a Blair, roedd methiant Hans Blix i ddod o hyd i'r arfau yn brawf pendant fod Saddam Hussein wedi eu cuddio nhw'n dda.

A, dyma ni, gyda'r bygythiad diwedddara' i gau swyddfeydd post, oherwydd diffyg busnes. Ers blynyddoedd, mae'r awdurdodau wedi bod yn ei gwneud hi'n anoddach ac anoddach i wneud defnydd o'r gwasanaeth.

I ddechrau, roedd oriau'r swyddfeydd yn cael eu tocio. Wedyn, roedd pawb arall yn cael cystadlu yn eu herbyn ac wedyn roedd pensiynau'n cael eu talu i'r banc. Ac, yn y diwedd, mae'r awdurdodau'n cwyno nad oes neb yn defnyddio'r swyddfeydd.

Mae fel petaech chi'n saethu rhywun ddwywaith. Unwaith er mwyn eu hanafu, a'r ail dro er mwyn eu lladd – oherwydd eu bod wedi brifo.

Ychydig yn ôl, mi ddiplannodd ambell i swyddfa a rhoddwyd gwasanaeth symudol yn eu lle – fan yn galw mewn pentre' am gwpwl o oriau bob wythnos. Bellach, mae'r rhai o'r rheiny'n gorfod diflannu hefyd.

Mae busnes yn gallu llwyddo neu fethu, yn dibynnu i raddau helaeth ar yr amgylchiadau. Mae llywodraeth a chynghorau lleol yn creu trefn gynllunio sy'n help i'r archfarchnadoedd mawr ac yn bod yn hael gyda threthi a chyfleusterau parcio.

Maen nhw ac awdurdodau eraill hefyd yn gallu creu amodau sy'n gwneud yn siŵr fod busnes yn mynd i'r wal neu'n brwydro i fyw – fel yn achos swyddfeydd post cefn gwlad. Fel yn achos, cymaint o gonglfeini cymunedau cefn gwlad.

Fel yn achos Theatr Felin-fach, o ran hynny.

Ffenomenon!

Mae'n anodd gwybod sut i esbonio'r peth, ond mae Eisteddfod Capel-y-Groes yn mynd o nerth i nerth, yn enwedig ymhlith y plant a'r bobl ifanc.

Ers blynyddoedd, mae pobol wedi bod yn rhybuddio am farwolaeth y cyfarfodydd hyn ac, yn nyddiau'r X-Factor a'r Waw Ffactor fydddech chi ddim yn meddwl fod y gobaith am gwpan mewn eisteddfod leol yn ddigon i ddenu.

Ond ddiwedd mis Mawrth, roedd y llwyfan dros dro yn y côr mawr yn gwegian dan bwysau cymaint â phymtheg o unawdwyr ifanc a'r seddi hefyd yn llawn hyd at resi yn y galeri.

Yn bersonol, mi faswn i wedi rhoi'r wobwr gyntaf i un neu ddwy o'r mamau oedd yn meimio yng nghorff y capel, ac weithiau mae yna bryder fod y cystadlu'n mynd yn ormod - ond fedr neb wadu fod yr eisteddfodau'n dal i gydio.

Am unwaith, mae teledu a rhaglenni realiti yn dilyn yr hen, hen draddodiad Cymraeg. A dyna pan nad fflwce oedd hi fod merch fel Connie Fisher wedi ennill, neu fod Tara Bethan yn y dwsin ola'.

Yn tydyn nhw'n hen seijars?

Caryl Lewis yn Troi at y Gyfraith

Practis Cyfreithiol yw'r cefndir i'r nofel fer newydd gan Caryl Lewis Jackie Jones. Prif ganolbwynt y nofel yw cyfreithwraig lled-ifanc ddisglair o'r enw Jackie Jones, sydd wedi creu argraff am ei dawn

i amddiffyn drwgweithredwyr yn llwyddiannus. Fodd bynnag dyw pethau ddim yn fêl i gyd iddi. Mae ei bywyd personol yn eitha blêr ar ôl iddi wahanu wrth ei gwr, mae'r swyddfa yn llawn tyndra a themtasiynau a dyw pawb ddim yn ei hedmygu am ei dawn i achub

croen rhai o ddihirod y dref.

Nofel ysgafn fer can tudalen i oedolion yw Jackie Jones, ac yn debyg i Y Rhwyd mae'n nofel gyfoes sy'n darllen yn rhwydd, yn llawn troadau yn y plot ac yn gadael digon i'r darlennydd gnoi cil arno. Yn ogystal â chyhoeddi toreth o

nofelau i oedolion a phobl ifanc mae Caryl Lewis, sy'n byw yng Ngoginan yng Ngheredigion, wedi bod yn brysur yn addasu Martha Jac a Sianco i ffilm ar gyfer S4C. Pris Jackie Jones yw £1.99. Fe'i cyhoeddir gan Y Lolfa.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Bu nifer o aelodau'r Urdd yn cystadlu yn rhagbrofion Eisteddfod yr Urdd, Cylch Llambod bore Iau Chwefror 28ain. Yng nghystadlaethau'r llwyfan, yn y prynhawn, death y grŵp llefaru yn drydydd ac hefyd trydydd cafwyd yn y parti canu. Da iawn bawb am gystadlu.

Dymuna Elonwy a Wendy, ysgrifenyddion yr Eisteddfod Gylch, ddiolch yn fawr iawn i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw ffordd, gan wneud yr Eisteddfod yn un llwyddiannus.

Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol dydd Llun, Mawrth 3ydd. Cafwyd prynhawn hwylus iawn gyda'r plant yn cymeryd rhan mewn amrywiaeth o gystadlaethau fel canu, adrodd, dweud jôc, dawnsio, chwarae offerynnau, tynnu lluniau a llawysgrifen, parti canu ac adrodd. Death nifer o rieni i wyllo ac i gefnogi'r plant. Tîm Talog, gyda Owain Davies a Dyfan Evans yn gapteiniaid, oedd yn fuddugol ar ddiwedd y prynhawn. Galwodd Mr Tim Jones heibio i dynnu llun o'r plant yn eu gwisg Gymreig.

Aeth tîm o'r Adran Iau i Ysgol Castell Newydd Emlyn i gymerid rhan mewn 'Mini Olympics' ddydd Gwener Mawrth 29ain. Aeth yr Adran Iau i Rygbi Tag yn Llambod. Roedd yn brofiad newydd i'r plant ieuengaf a chafwyd llawer o hwyl yn y mwd.

Bu blwyddyn 6 yn Ysgol Gyfun Llambod i gael gwersi Gwyddoniaeth gyda Miss Mattie Evans. Cawsant amser da. Aethant hefyd i'r ysgol i gael gwers Technoleg gyda Mr Allan Jones gan wneud tecyn i ddal pensilion. Roeddent wedi mwynhau'n fawr.

Teithiodd blwyddyn 6 i Ysgol Dyffryn Teifi i gael gwersi Mathemateg gan Techniquet Roadshow gan ddysgu llawer drwy wneud gweithgareddau ymarferol. Bu'r Adran Iau yn cymeryd rhan yng nghystadlaethau Trawsgwlad Ysgolion Cynradd Cylch Llambod yn Ysgol Gyfun Llambod, brynhawn Llun Mawrth 17eg. Dymuniadau gorau i Daniel Douglas, Scott Douglas, Betsan Jones, Bethan Eynon, Joshua Hamza a Gavin Evans a fydd yn mynd ymlaen i gystadlaethau Trawsgwlad Rhanbarth Ceredigion yn Llangrannog yn mis Ebrill.

Byddwn yn cynnal noson 'Rasus Ceffylau', nos Wener, Ebrill 11eg yn Nhafarn Talardd am 7.30 o'r gloch. Disgwylir iddi fod yn noson llawn o hwyl, er mwyn codi arian tuag at gronfa'r ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Diolch

Dymuna Gary a Eirlys, Cwmderi ddiolch o galon am y cardiau,

anrhegion, galwadau ffôn a'r dymuniadau da a dderbyniwyd yn ystod genedigaeth Alwena. Gwerthfawrogwyd y caredigrwydd yn fawr iawn. Diolch i bawb.

Cydymdeimlo

Trist iawn oedd marwolaeth Mair Jones, 5 Bryndulais (Mair Alderwell i lawer o'r ffrindiau) ar ôl dioddef ers sawl blwyddyn ond yn cadw'r ysbryd gorau tan y funud olaf. Yn wir, nid ond rhyw ddeufis oddi ar iddi deithio am dro i'r Eidal yng nghwmni rhai o'r plant ac yr oedd hyn yn fwynhad mawr iddi. Estynnir cydymdeimlad i'r plant sef Avril, Sandra, Delyth, Debbie ac Euryl a'r wyrion heb anghofio ei brawd Glyn yn Hafodyrwyn. Gwelir ei heisiau yn fawr yn yr ardal.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Martine Van-Ryswyk, Gilwen ar gyrraedd rownd gynderfynol cystadleuaeth trin gwallt 'Loreal'. Fe fydd y rownd nesaf ym Mryste a'r rownd derfynol yng Ngwesty'r Grosvenor yn Llundain. Pob dymuniad da iddi.

Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar nos Fawrth, Mawrth 18fed gydag wyth aelod yn bresennol o dan gadeiryddiaeth T J Davies. Hefyd yn bresennol oedd y Cyngorydd Sir, Fioled Jones. Siom oedd clywed gan Fioled ei bod yn bwriadu ymddeol ac mai dyma'r cyfarfod olaf y byddai'n bresennol. Diolchodd y Cadeirydd iddi am wasanaeth gonest a diflino am dros bymtheg mlynedd a dymuno yn dda iddi i'r dyfodol. Hyfrydwch, fodd bynnag oedd deall bod Clerc y Cyngor bro, Linda Evans yn bwriadu sefyll yr etholiad ym mis Mai. Cadarnhawyd fod y Cyngor Bro yn bwriadu cynnal yr etholiad ym mis Mai. Cadarnhawyd fod y Cyngor Bro yn bwriadu symud ymlaen i gael dau Fesurydd Cyflymdra bob ochr yr ysgol ar gost o £5,000 - gyda £2,000 yn dod o'r Cyngor Sir a £3,000 o'r Cyngor Bro. Teimlai'r aelodau fod diogelwch plant yr ysgol yn hanfodol er waetha'r gost.

Cais Cynllunio

1 Greenfield Terrace - cais i godi tŷ ychwanegol gerllaw'r tŷ gwreiddiol. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad ond bod y Cyngor Sir yn hapus fod digon o le i droi modur o flaen y tŷ a'r allanfa i'r ffordd fawr yn ddigonol.

Caniatawyd y rhoddion canlynol fel a ganlyn :- Henoed Llanllwni - £200;

Ysgol Llanllwni - £200; Mencap - £100; Kidney Wales - £25; Citizen's Advice - £50; Pwll Nofio Llandysul - £25.

Gofynnir i Lyn Jones am bris i dorri porfa'r cae chwarae dros yr Haf.

Cafwyd gwybodaeth fod perchen newydd 'Fronallt' wedi newid yr enw i 'Patchoeg'. Nid yw'r Cyngor yn cymeradwyo newid o'r fath yma ond nid oedd dim a allant ei wneud o dan y ddeddf bresennol.

Bwystfilod Rheibus yn rhydd yng Nghymru

Nos Wener, Mawrth 14 fe lansiodd Bwystfilod Rheibus, hunangofiant y cyn-archdderwydd, Robyn Léwis. Dyma unfed llyfr ar hugain y cymeriad lliwgar a rhyfeddol hwn o Nefyn. Yn Brif Lenor, Bargyfreithiwr, Dirprwy-Farnwr, awdur a llythyrwr brwd, erbyn hyn mae Robyn Léwis yn ŵr adnabyddus drwy Gymru fel un sydd ag angerdd at bopeth y mae'n ymwneud â hwy. Mae teitl y llyfr, Bwystfilod Rheibus, yn un sydd yn sicr o achosi chwilfrydedd a diddordeb ymysg darllenwyr. Wrth bori drwy'r gyfrol fe gawn yr eglurhad mewn un o nifer o straeon difyr yr awdur, gyda'r teitl yn nodi, yn ôl Robyn Léwis, 'trobynt ieithyddol ei fywyd'. Cawn hanes difyr ac onest iawn, gyda'r awdur yn siarad, fel arfer, yn ddi-flewyn ar dafod ar bynciau sy'n agos i'w galon fel yr iaith Gymraeg, y teulu Brenhinol, Gwleidyddiaeth ac Eisteddfota. Gwasg y Bwthyn £9.95.

BETI BWT - ATGOFION

MERCH O'R 1950au

NOFEL Y MIS - EBRILL 2008

Nofel am fywyd ym mhentref chwarelyddol Trefor ym Mhen Llŷn wedi ei adrodd drwy lygaid diniwed merch hoffus chwe blwydd oed yw Beti Bwt gan Bet Jones. Bydd y gyfrol yn cael ei lansio mewn noson arbennig nos Iau, Ebrill 3ydd am 7pm yng Nghanolfan Uwchgwyrfai, Clynog, Caernarfon.

Geraint Jones, gŵr sy'n adnabyddus yn lleol ac yn genedlaethol am ei waith fel arweinydd Seindorf Trefor, fydd yn arwain y noson. Yn cynnig blas o'r nofel gyda darlenniad fydd yr actores boblogaidd Mari Gwilym.

Mae'r nofel hon yn adrodd helynt Beti ym mhentref Trefor yn niwedd y 1950au, gyda phob pennod yn bwrw golwg ar agwedd o fywyd y ferch fach a'i hymwneud â gwahanol gymeriadau a sefyllfaoedd o fewn y gymdeithas chwarelyddol glôs. O'r trip Ysgol Sul i ddyfodiad y 'teleffisyon', ceir yma atgofion bachog a chofiadwy sy'n arwain at ddiweddglô cynnil ac annisgwyl.

Dyma nofel gyntaf yr awdures Bet Jones a ddaw yn wreiddiol o Drefor, ond sydd bellach yn byw yn Rhiwlas ger Bangor. Fe ddaeth y gyfrol hon yn ail yng nghystadlaethau Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint a'r Cyffiniau 2007. Beti Bwt fydd Nofel y Mis ar gyfer mis Ebrill.

Cwrtnewydd

Gwellhad Buan

Yn ystod yr wythnosau diwethaf derbyniodd Mary Jenkins, Cathal law driniaeth i'w llaw. Gobeithio eich bod llawer yn well erbyn hyn.

Llwyddiant ym Myd Amaeth

Yn ddiweddar mewn Seremoni o gangen Ceredigion o'r 'National Milk' Records (NME) gwobrwyd Paul a Bessie Williams a'r teulu Clyncoch gyda 7 gwobr gyntaf, 3 ail wobwr a 3 trydydd gwobr. Mae hyn yn glod mawr iddynt a llongyfarchwn hwy yn fawr iawn ar eu llwyddiant. Mae'n hyfryd fod busnesau teuluol fel yma yn cael eu llwyddiant a dod a chlod i'n hardal ni.

Ysgol Cwrtnewydd

Clwb Ffrindiau Mis Mawrth 2008

£10.00 Sion Jenkins, Hafan Y Cwm, Cwmsychbant.

£5.00 Lleucu Rees, Caeronnen, Cwmsychbant.

£2.50 Huw Jenkins, Llysfaen Uchaf, Llanwnnen.

£2.50 Sion a Dafydd Evans, Gwel-y-Bryn, Ffordd y Gogledd, Llambod.



Yn flynyddol yn Ysgol Gynradd Cwrtnewydd cyflwynir Tarian Teulu Dyke i'r cymwynaswr gorau yn ystod y flwyddyn. Ond eleni bu'n rhaid rhannu'r wobwr rhwng Stephen Hyde a David Thomas. Cyflwynwyd y wobwr iddynt yn ystod eisteddfod yr ysgol.

Clecs y Coleg

Nos Fercher, 12 Mawrth 2008, aeth Dr Rhiannon Ifans (Darlithydd Tucker yn Adran y Gymraeg) â'i chynulleidfa ar fordaith o Gymru i Awstralia. Daeth mwy na thrigain ynghyd o Lanbedr Pont Steffan yn ogystal ag Aberystwyth a'r cyffiniau i fwrw angor ymhlith baledwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yng nghwmni'r darlithydd doniog, sydd yn un o wlad y medra. Yn ei darlith wreiddiol a choeth tynnodd Rhiannon sylw at y casgliad gwerthfawr o faledi a geir yn y llyfrgell yn Llanbedr Pont Steffan. Rhoes hi hefyd flas inni ar rai o'r erchyllterau a gofnodwyd ar gân, gan gynnwys canibaliaeth forwrol, a hynny oll cyn swper!

Cyhoeddir y ddarlith gan Gymdeithas Lyfrau Ceredigion (<http://www.clcgyf.org/>).

Ym mis Mawrth hefyd bu Dr Rhiannon Ifans ac Owen Thomas, iill dau'n ddarlithwyr yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan ar ymweliad ag Ysgol Gynradd Carreg Hirfaen ar Ddiwrnod y Llyfr.

Bu Rhiannon yn dysgu disgyblion Cyfnod Allweddol 2 (blynyddoedd 3-6) sut i lunio stori drwy adrodd hanes Pwyll a Rhiannon yng Nghainc Gyntaf y Mabinogi. Cafodd y disgyblion gryn sbri wrth ail-greu'r garwriaeth a fu rhwng y ddau gymeriad fel y gwelir yn y llun. Yn goron ar y cyfan daeth Rhiannon â chacen â thair haen o sbwng amheuthun i'w rhannu ymhlith y disgyblion i'w hatgoffa fod gan bob stori dda fan cychwyn, canol a diweddgllo.

Mewn cynllun peilot unigryw a chyffrous iawn bu Dr Christine Jones ac Owen Thomas yn cynnal cynhadledd fideo ddechrau mis Mawrth ar gyfer ysgolion ledled Cymru. Pwnc darlith Christine ar gyfer y chweched dosbarth oedd un o straeon byrion Mihangel Morgan, a bu Owen yn sôn am adnoddau a darpariaeth addysgol Adran y Gymraeg.

Ond i wrando ar y cyflwyniadau hyn ni fu'n rhaid i'r disgyblion gamu dros drothwy eu hysgol gan fod y cyfan yn digwydd yn fyw dros y we yn stiwdio Rhwydwaith Fideo Cymru Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan. Ar y sgrin gallai'r darlithwyr weld y myfyrwyr chweched dosbarth o bob rhan o Gymru o'u blaen ac yr oedd yn gyfle arbennig i fyfyrwyr gael holi'r darlithwyr.

Yr oedd deg o ysgolion o Fôn i Fynwy wedi dod ynghyd i drefnu'r gynhadledd fideo hon, gan gynnwys Ysgol y Cymer yn y Rhondda, Ysgol Uwchradd Llanfair ym Muallt, Coleg Iâl yn Wrecsam, Ysgol Uwchradd Caergybi, Ysgol Uwchradd Llanfyllin, Ysgol Uwchradd y Drenewydd, Ysgol Penglais yn Aberystwyth, Coleg Llandrillo a Choleg Abertawe. Yr ysgol agosaf i Lamed a fu'n cymryd rhan o'r gynhadledd fideo oedd Ysgol Uwchradd Aberaeron.

Cynhelir cynhadledd fideo arall y tymor nesaf ac mae pob croeso i ysgolion uwchradd gysylltu â ni ar ragor o wybodaeth. Rhowch wybod i Owen Thomas (01570 424864): owen.thomas@lamp.ac.uk

Sioe Clwb Drama Theatr Felinfach – LLAWN!!


Nos Fercher 19 Mawrth roedd Theatr Felin-fach o dan ei sang gyda 120 o aelodau'r clybiau drama yn perfformio yn eu sioe ddiweddaraf Thomas Jones o Borthyffynnon (Twm Sion Cati). Heidiodd llond lle o bobl - yn rhieni, brodyr a chwiorydd, athrawon, ffrindiau a pherthnasau eraill i Felinfach i weld gwledd o berfformiadau amrywiol gan y plant 7 – 11 oed. Cafwyd sioe yn llawn straeon a chwedlau byrlymus am Twm Sion Cati yn ogystal â'r ffeithiau diddorol na wyddom amdanynt am Thomas Jones o Borthyffynnon. "Digwyddiad sydd bob amser yn boblogaidd iawn yng nghalendr Theatr Felinfach ac sydd bob tro

yn llawn dop - o flaen, a thu hwnt i'r llen!" medd Anna ap Robert, Swyddog Ieuentid Theatr Felinfach a chynhyrchydd y sioe. Mae 27 o ysgolion cynradd yn bwydo i mewn i'r clybiau drama a gynhelir mewn 5 canolfan ar draws canolbarth y sir yn wythnosol yn ystod tymor yr hydref a thymor y gwanwyn. "Roedd y plant wedi gweithio'n galed i greu eu cyflwyniadau yn seiliedig ar straeon a helyntion Twm Sion Cati." medd Anna. Gwelwyd y straeon yn dod yn fyw ar lwyfan Felinfach trwy gyfrwng drama, dawns a chân. Yn ogystal crewyd gwaith trwy gyfrwng ffilm fel rhan o'r perfformiad.

Yn y Llun: Aelodau o Glwb Drama Tregaron yn creu rhaglen ddogfen ar fywyd Thomas Jones o Borthyffynnon (Twm Sion Cati.)



Os ydych yn ymateb i hysbyseb gan gwmni yn CLONC, dywedwch wrthynt ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.



Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

Rhif Ffôn:

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET

Gwobr: Pecyn nwyddau Clonc

I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

				6				
6	2		7			9		1
9		1		4				
1			6	3		4		2
			8	5	4			
8		4		2	7			9
				6		2		3
3		9			5		1	4
			3					

SWDOCW

Dyma'r enwau a wnaeth gystadlu yn y rhifyn diwethaf:

Iona Warmington, Llandaf.
Jean Griffiths, Cwrtnewydd
Carol Evans, Llanllwni
Beti Evans, Llambed
Bethan Williams, Llanybydder
Yvonne Davies, Drefach

Buddugol:

Meinir Davies, 4 Bryndulais,
Llanllwni, Pencader

1	8	4	6	3	2	9	5	7
6	2	7	4	5	9	3	8	1
5	9	3	1	8	7	6	4	2
2	4	8	7	9	5	1	6	3
9	1	5	8	6	3	7	2	4
3	7	6	2	4	1	5	9	8
7	6	1	9	2	8	4	3	5
8	3	9	5	1	4	2	7	6
4	5	2	3	7	6	8	1	9




Dôl-Mebyd,
Pencarreg,
Llanybydder.

Annwyl Blant,

Sut ydych chi?
Gobeithio eich bod chi
gyd yn go lew ac heb
fwyta gormod o wyau
pasg. Yn anffodus mi
fwytais i fwy na'm siâr ac
mae fy mola bron yn rhy
fawr i'm cragen!!

Wel, fe gafodd nifer
fawr ohonoch flas arni
y mis hwn. Mae clod
arbennig yn mynd i
holl ddisgyblion Ysgol
Llanwnnen, Guto Davies
o Lanllwni, Miriam
Butcher o Gaerdydd,
Sioned Fflur o Lanybyder
a Catrin Rosser o Frynteg.
Ond yn dod i'r brig y
mis hwn mae Gwenllian
Jenkins o Ysgol
Llanwnnen. Da iawn a
llongyfarchiadau mawr.

Cofiwch fynd ati i
liwio'r llun y mis hwn a'i
ddanfôn ataf erbyn dydd
Llun, 21ain o Ebrill.



Enw:

Cyfeiriad:

**Enillydd
y mis!**

Gwenllian
Jenkins

**Toriad
Taclus**

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

**COMPASS
OFFICE
SUPPLIES**

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambod, Heol Tregaron,
Llambod.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambod
☎ 01570 423135
☎ 07811917799 /
07968821035
✉ mwnciffwnci@hotmail.com



Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: 01570 422401
Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Digwyddiadau Lleol



Dyma Maer y dre Cyng. Chris Thomas yn cyflwyno orenau Masnach Deg i chwaraewyr pêl-droed ail dîm tref Llambled yn ystod hanner amser. Pwrpas y digwyddiad oedd i gychwyn pythefnos o ddigwyddiadau yn hybu Masnach Deg yn Nhre Llambled.



Yn ddiweddar daeth Mrs Carolyn Hunt i'r ysgol i dderbyn siec am £1,007 ar ran Apêl Cystic Fibrosis. Cyflwynwyd y siec iddi gan ein Prif Swyddogion Aled Thomas, Siwan Davies, Angharad Lewis a Richard Milcoy. Diolch i flwyddyn 12 a 13 am godi'r swm sylweddol yma at gronfa Cystic Fibrosis yn eu 'Snowball' adeg Nadolig.

Eisteddfod Capel y Groes



Siwan Davies, Llys-Deri, Llanwenog yn ennill Tlws yr ifanc yn Eisteddfod Capel-y-Groes ar ddydd Mercher, Mawrth 26ain.

Platiau Eisteddfod Genedlaethol 1964, 1984 a 1986.

Ydych chi'n casglu platiau'r Eisteddfod Genedlaethol? Oes bwlch yn eich casgliad?

Yn ddiweddar cafodd Pwyllgor Apêl yr Eglwys Newydd rodd o dri phlât o eisteddfod Abertawe 1964, Llambled 1984 ac Abergwaun 1986 i'w gwerthu am y cynnig uchaf er budd y gronfa leol at

Eisteddfod Caerdydd 2008. Mae'n ddiddorol nodi fod prinder plât Abergwaun ar y pryd a bod plât Abertawe yn uniaith Saesneg.

Os am wneud cynnig am unrhyw blât yna cysylltwch â Siwan yn swyddfa'r

Eisteddfod yng Nghaerdydd ar 029 2076 3777, drwy e-bost siwan@eisteddfod.org.uk neu drwy lythyr cyn Mehefin 30ain 2008.



Mwynhau darllen Clonc?

Beth am ddarllen y cyhoeddiadau Cymraeg eraill:

GOLWG – Cylchgrawn Cymraeg Cenedlaethol wythnosol, a gynhyrchir yn Llambled, sydd yn y siopau bob dydd Iau. Ffoniwch: 01570 423529.

Y CYMRO – Papur Newydd Cymraeg Cenedlaethol wythnosol sydd yn y siopau bob dydd Gwener. Ffoniwch: 01766515514.

LAS Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar **01570 421421**

Ffordd Tregaron, Llambled, Ceredigion, SA48 8LT

Llwyddiant i Gylch Llambed.....



Grŵp Dawnsio Cyfrwng Cymysg Ysgol Cwrtnewydd yn dod yn ail yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd.



Aron Dafydd yn cipio'r wobwr gyntaf ar yr Unawd Bechgyn Bl. 7 - 9 a'r llefaru ac Elliw Dafydd yn fuddugol ar yr Unawd Cerdd Dant i Fl. 10 - 13. Hefyd enillodd yr ail wobwr ar y llefaru Bl. 10 -13.



Ysgol Ffynnonbedr - 3ydd Parti Unsain Bl. 6 ac Iau [Ysgolion dros 50 o blant]



Ysgol Gyfun Llambed – 2il Grŵp Llefaru Bl.7 - 9



Ysgol Gyfun Llambed 3ydd Ymgom Bl. 7 - 9 [Rhodri, Gwawr, Sioned a Carwyn]



Llion Thomas, Gwawr Hatcher a Dewi Uridge o Aelwyd Llambed yn ennill pedwar trydydd yn Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd.



Ysgol Cwrtnewydd - 3ydd Ymgom Bl. 6 ac Iau [Meinir, Luned, Rhodri a Daniel]



Ysgol Ffynnnbedr - 3ydd Grŵp Llefaru Bl. 6 ac Iau i Ddysgwyr